

Cynnwys

Cyflwyniad	3
1 - Gwella mynediad y cyhoedd at wasanaethau digidol	5
Ap GIG Cymru	5
Moddion Digidol	6
Porth Mynediad Deintyddol (DAP)	8
Cynhwysiant Digidol	8
2 - Cyflwyno gwasanaethau digidol galluogol: Gofal Sylfaenol	10
Systemau Practis Cyffredinol	10
Fferylliaeth	11
Cysylltu Gofal	12
Brechiadau / System Imiwneiddio Cymru	13
Gwasanaeth Presgripsiynau Electronig (EPS)	14
2 - Cyflwyno gwasanaethau digidol galluogol: Gofal Eilaidd	15
Cynhyrchion Cofnod Sengl	15
Porth Clinigol Cymru (WCP)	15
System Gweinyddu Cleifion Cymru (WPAS)	16
Cofnod Gofal Nyrsio Cymru (WNCR)	16
Canser	17
System Gofal Dwys Cymru (WICIS)	17
Set Ddata Gofal Brys Cymru (WECDS)	18
Diagnosteg (LIMS, RISP)	19
Rhaglen Rhagnodi a Gweinyddu Meddyginiaethau yn Electronig (ePMA)	21
Microsoft 365	22
Mamolaeth	23
Gofal llygaid	23
Iechyd Meddwl	24
3 - Cefnogi datrysiadau digidol diogel ac effeithiol	26
Seiberddiogelwch a Seibergadernid	26
Seilwaith Cenedlaethol	26
Dyfeisiau	27
Saerïaeth Ddigidol Genedlaethol	28
Rheoli Gwybodaeth ac Ymchwil	29
Data	29
4 - Cryfhau'r sefydliad:	33
Llywodraethu	33
Llywodraethu Rhaglenni	34
Ansawdd	35
Partneriaeth ac Ymgysylltu	36

Strategaeth Pobl.....	38
Cyllid.....	41
Cynllunio Strategol	42
5 - Materion Digidol	44
Cyflwyno Rhaglenni Cenedlaethol Cydweithredol	44
Cynnal yr ystâd ddigidol	44
Rhesymoli'r ystâd ddigidol	45
Rhannu data a mudo i'r Adnodd Data Cenedlaethol	45
Defnydd cyflym a chyfrifol o ddeallusrwydd artiffisial.....	46
Map ffordd digidol aml-flwyddyn strategol	46

Cafodd y pecyn tystiolaeth hwn ei gynhyrchu gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru i gefnogi'r Cyfarfod Atebolrwydd Cyhoeddus rhwng Gweinidogion Cymru a'r Bwrdd ar 29 Ionawr 2026. Fe'i cynhyrchwyd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Dyddiad a gyflwynwyd: 15 Ionawr 2026

Dyddiad y cyfarfod: 29 Ionawr 2026

Cyflwyniad

Sefydlwyd Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) fel Awdurdod Iechyd Arbennig ar 1 Ebrill 2021, dan gyfarwyddyd Llywodraeth Cymru i:

- Ddylunio, datblygu a darparu platfformau, systemau a gwasanaethau digidol
- Cefnogi eraill i ddylunio, datblygu a darparu platfformau, systemau a gwasanaethau digidol
- Cefnogi datblygiad a gweithrediad safonau cyffredin ar gyfer platfformau, systemau a gwasanaethau digidol
- Cyngori a chynorthwyo Gweinidogion Cymru mewn perthynas â diogelwch platfformau, systemau a gwasanaethau digidol
- Cefnogi datblygiad o'r gweithlu digidol

Mae IGDC yn darparu gwasanaethau data digidol cenedlaethol i gefnogi darpariaeth iechyd a gofal yng Nghymru. Rydym yn gyfrifol am seilwaith digidol cenedlaethol, data cenedlaethol, a'r rhan fwyaf o'r prif wasanaethau digidol a ddefnyddir yn helaeth ar draws nifer o sefydliadau. Fodd bynnag, mae sawl rhan bwysig o'r ystâd ddigidol sy'n cael eu rheoli gan eraill:

- Mae nifer sylweddol o systemau digidol llai sy'n cael eu defnyddio ar draws GIG Cymru yn cael eu rheoli'n lleol gan sefydliadau eraill.
- Mae pob dyfais, rhwydwaith a seilwaith ysbyty yn cael eu rheoli'n lleol.
- Mae dyfeisiau technoleg rhithwir ac o bell yn cael eu rheoli'n lleol, fel arfer gan fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol.
- Mae systemau meddalwedd menter (Cyllid, Adnoddau Dynol, ac ati) yn cael eu rheoli gan PCGC.
- Mae'r Gwasanaeth 111 yn cael ei reoli gan Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwylans Cymru.

Mae mwy na thri chwarter o weithgarwch ac adnoddau IGDC wedi'u neilltuo i ddarparu gwasanaethau gweithredol. Mae dros gant o wasanaethau gweithredol IGDC yn darparu'r rhwydwaith craidd, data, integreiddio, a gwasanaeth clinigol ar draws GIG Cymru, gyda chefnogaeth seiberddiogelwch, rhannu data, cymorth gwasanaeth, rheoli canolfannau data, a swyddogaethau allweddol eraill. Rydym yn meincodi ein perfformiad yn erbyn safonau'r diwydiant – er enghraifft, roedd ein hargaeledd system cyffredinol yn 99.974% drwy gydol 2024/25.

Mae tua 70% o'n gweithwyr yn weithwyr technegol, gan gynnwys peirianwyr meddalwedd, dadansoddwyr data a phenseiri digidol. Ers sefydlu IGDC, mae'r sefydliad wedi tyfu tua 30% o ran staff cyflogedig, hyd at fis Ebrill 2025. Mae hyn yn adlewyrchu cyfrifoldebau newydd ac estynedig, fel yr Uned Seibergadernid, Canolfan Ragoriaeth Microsoft 365, a rhaglenni mawr fel Diagnosteg - System Rheoli Gwybodaeth Labordy (LIMS) a Chaffael System Delweddu Radioleg (RISP).

Yn unol â pholisi'r llywodraeth a nodir yng Nghynllun Cymru Iachach, mae IGDC yn cynyddu buddsoddiad mewn gwasanaethau sy'n wynebu cleifion a gwasanaethau cymunedol sy'n galluogi atal a grymuso cleifion trwy ddigidol. Darperir mwy o fanylion yn adrannau 1 a 2 isod.

Mae IGDC yn canolbwyntio ar flaenoriaethau digidol y Gweinidog ac yn gweithio ar y cyd â phartneriaid i yrru cyflawniad y meysydd blaenoriaeth hyn, sy'n cynnwys pedair blaenoriaeth strategol:

- **Saernïaeth Darged** - Sefydlu saernïaeth ddigidol fodern ac unedig ar gyfer GIG Cymru, gan alluogi rhyngweithredadwyedd a pharatoi systemau ar gyfer y dyfodol.
- **Cofnod Iechyd Electronig (EHR)** - Darparu cofnod iechyd electronig cynhwysfawr ac integredig sydd ar gael ar draws lleoliadau gofal.
- **Adnodd Data Cenedlaethol (NDR)** - Adeiladu ac ehangu'r platfform data cenedlaethol i gefnogi dadansoddeg, ymchwil a gofal cleifion gwell.
- **Seiberddiogelwch** - Cryfhau seibergadernid a seiberddiogelwch ar draws holl blatfformau a gwasanaethau digidol GIG Cymru.
- A phedair blaenoriaeth cyflawni:
- **Ap GIG Cymru** - Ehangu a gwreiddio Ap GIG Cymru fel y drws ffrynt digidol i gleifion, gan gefnogi apwyntiadau, presgripsiynau, cofnodion a rheoli rhestrau aros.
- **Mamolaeth Ddigidol** - Gweithredu datrysiadau digidol ar gyfer gwasanaethau mamolaeth, gan gynnwys safonau data a llwybrau cleifion gwell.
- **ePresgripsiynu** - Cyflwyno presgripsiynu electronig ar draws gofal sylfaenol a gofal eilaidd i wella diogelwch, effeithlonrwydd a phrofiad cleifion.
- **Cysylltu Gofal** - Darparu datrysiadau digidol integredig i gysylltu iechyd a gofal cymdeithasol, gan gefnogi teithiau cleifion di-dor a rhannu gwybodaeth.

1 - Gwella mynediad y cyhoedd at wasanaethau digidol

Ers ei sefydlu yn 2021, mae IGDC wedi ehangu i wasanaethau digidol sy'n wynebu cleifion, yn bennaf trwy Ap GIG Cymru. Mae'r cynnyrch newydd hwn wedi'i ddatblygu gan ddefnyddio arfer digidol modern: cynnal cwmwl, timau amlddisgyblaethol ystwyth, saernïaeth ddigidol agored, a dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr. Rydym wedi cydweithio'n agos ag Ap GIG Lloegr i gyflymu'r ddarpariaeth ac i rannu dysgu.

Ap GIG Cymru

Dechreuwyd datblygu'r Ap yn 2021. Profwyd y 'cynnyrch sylfaenol hyfyw' cyntaf yn 2022. Lansiwyd y cynnyrch 'byw' cyntaf yn 2023. Datblygwyd nodweddion gofal sylfaenol yn 2024, ac yn 2025 ehangodd y llwybr datblygu i gynnwys nodweddion gofal eilaidd ehangach hefyd. Mae nifer y defnyddwyr cofrestredig ar yr Ap yn cynyddu'n gyson ar gyfradd o tua 25 mil o ddefnyddwyr newydd y mis. Ar hyn o bryd mae cyfanswm o ychydig dros 650 mil, sef 20% o boblogaeth oedolion Cymru.

Mae'r defnydd o nodweddion yr Ap yn cyflymu wrth i fwy o wasanaethau cysylltiedig gael eu galluogi, yn enwedig mewn gofal sylfaenol. Ar hyn o bryd mae tua miliwn o ddefnyddwyr yn mewngofnodi bob mis, ac rydym yn disgwyl i hyn gynyddu yn 2026. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi dod i gytundeb â'r proffesiwn meddygon teulu i alluogi nodweddion allweddol (gweld apwyntiadau, gofyn am bresgripsiynau ailadroddus, gweld cofnod gofal cryno) ac rydym yn disgwyl i hyn ysgogi ymgysylltiad defnyddwyr. Mae presgripsiynau mewn gofal sylfaenol ar y trywydd iawn i fod yn gwbl ddigidol erbyn mis Tachwedd 2026, a fydd yn galluogi gwelliannau pellach i nodweddion meddyginiaethau yn yr Ap, a fydd hefyd yn ysgogi ymgysylltiad defnyddwyr.

Mae IGDC wedi gyrru'r gwaith hwn drwy dair rhaglen fawr - Ap GIG Cymru, Mudo System Meddygon Teulu, a Gwasanaeth e-Ragnodi (Meddyginiaethau EPS). Gyda'i gilydd, bydd hyn yn darparu llwybr meddyginiaethau cwbl ddigidol drwy gydol gofal sylfaenol, gan drawsnewid mynediad cleifion at feddyginiaethau, a sicrhau arbedion effeithlonrwydd mawr drwy gael gwared ar bapur, lleihau teithio, ac arbed amser. Heb gynnwys yr amser wedi'i arbed i'r cleifion eu hunain, amcangyfrifir bod manteision meddyginiaethau digidol yn £20 miliwn y flwyddyn. Mae hyn yn ychwanegol at fanteision eraill o nodweddion yr Ap a amcangyfrifir fel hyd at £17m y flwyddyn (mae'r manteision yn cynyddu yn unol â defnyddwyr a defnydd yr Ap).

Yn ddiweddar, mae IGDC wedi cyflwyno nodwedd sy'n dangos apwyntiadau cleifion allanol newydd yn yr Ap. Cyflwynwyd y cynllun pilot cyntaf ym mis Mehefin 2025. Aeth chwe bwrdd iechyd yn fyw ym mis Hydref 2025, ac aeth yr olaf yn fyw ym mis Ionawr 2026. Mae dros 250,000 o apwyntiadau ysbyty wedi cael eu hysbysu i ddefnyddwyr yn yr Ap hyd yn hyn, ac rydym yn disgwyl i'r nifer hwn gynyddu wrth i'r nodwedd gael ei hehangu i gynnwys mwy o fathau o apwyntiadau ac wrth i fwy o ddefnyddwyr gofrestru i ddefnyddio'r Ap.

Yn dilyn y cynllun pilot, newidiwyd y dull o gyflwyno 'clinig wrth glinig' i 'un trosglwyddiad' ar draws pob bwrdd iechyd. Galluogwyd y newid dull a chyflymder trwy gydweithio â

phartneriaid cyflawni'r byrddau iechyd, trwy sawl wythnos o gyfarfodydd 'tîm Cymru' byr (*standups*) bob dydd i brofi ymarferoldeb yn gyflym ac i ddatrys problemau. Yn dechnegol, roedd platfform yr Adnodd Data Cenedlaethol yn darparu mynediad at ddata Cymru gyfan ar y raddfa ofynnol. Gwnaeth Llywodraeth Cymru gadarnhau'r newid dull a gosod disgwyliadau trwy ohebu â holl sefydliadau GIG Cymru.

Mae cynllun cyffrous ar gyfer yr Ap, sydd wedi'i greu fel platfform ar gyfer darparu gwasanaethau i gleifion yn ddigidol. Bydd nodweddion newydd yn trawsnewid gwasanaethau iechyd a gofal drwy symleiddio mynediad at wasanaethau a galluogi hunanreolaeth o'u hanghenion iechyd a lles.

Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Chyd-ddylunio

Mae rhaglen yr Ap yn gweithio'n agos gyda chleifion a'r cyhoedd i flaenoriaethu, dylunio a datblygu nodweddion newydd a map ffordd ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys y canlynol

- Grŵp Sicrwydd Cleifion a'r Cyhoedd - sy'n darparu goruchwyliaeth, gan sicrhau hygyrchedd a chydraddoldeb ar draws anghenion amrywiol
- Paneli Ymchwil Defnyddwyr – sy'n cynnwys cleifion a gofalmwyr o gefndiroedd amrywiol i brofi prototeipiau a llywio penderfyniadau dylunio
- Adborth yn yr Ap – sy'n galluogi awgrymiadau amser real, a adolygir yn wythnosol i arwain gwelliannau i nodweddion a datrys problemau
- Gweithdai Nodweddion – sy'n dod â defnyddwyr a rhanddeiliaid ynghyd i flaenoriaethu gwelliannau yn seiliedig ar arolygon a mewnbwn gan arbenigwyr
- Deialog â Gweinidogion a Llywodraeth Cymru – sy'n cyd-fynd â map ffordd yr Ap â blaenoriaethau polisi

Mae'r gwaith hwn yn cael ei sicrhau trwy lywodraethu a sicrwydd rhaglen rheolaidd, sy'n sicrhau atebolrwydd tryloyw trwy Fwrdd Rhaglen dan gadeiryddiaeth annibynnol, trefniadau llywodraethu Bwrdd AIA IGDC, atebolrwydd cyfoedion trwy ymgysylltu'n uniongyrchol â phartneriaid cyflawni'r byrddau iechyd, a sicrwydd annibynnol trwy adolygiadau archwilio mewnol ac allanol.

Moddion Digidol

Mae'r Rhaglenni Moddion Digidol yn cyflawni trawsnewidiad cydlynol, system-gyfan o sut mae meddyginiaethau'n cael eu rhagnodi, eu dosbarthu a'u gweinyddu ledled Cymru. Wedi'i yrru gan y cyfeiriad polisi a osodwyd yn adolygiad Llywodraeth Cymru o e-bresgripsiynu yn 2021, mae'r rhaglenni'n cynnwys Gwasanaeth Presgripsiynau Electronig (EPS) Gofal Sylfaenol, Rhaglen Rhagnodi a Gweinyddu Meddyginiaethau Gofal Eilaidd yn Electronig (ePMA), a datblygiad y Cofnod Meddyginiaethau a Rennir (SMR). Gyda'i gilydd, mae'r rhaglenni hyn yn anelu at ddigideiddio llwybrau meddyginiaethau'n llawn, gan wneud defnyddio meddyginiaethau'n fwy diogel, yn fwy effeithlon ac yn fwy cyfleus i gleifion a gweithwyr proffesiynol.

EPS yw'r elfen sy'n wynebu'r claf o'r portffolio meddyginiaethau digidol. Mae'r rhaglen yn cydlynu cysylltiadau datblygu ac integreiddio ar gyfer y systemau digidol a ddefnyddir gan

bob practis meddyg teulu a fferyllfa gymunedol yng Nghymru, wedi'u cysylltu â gwasanaethau canolog a ddarperir gan GIG Lloegr gan gynnwys NHS Spine. Mae'n rhaglen gymhleth sy'n gofyn am gydweithio'n agos â nifer o gyflenwyr masnachol a channoedd o bractisiau a fferyllfeydd.

Ers i'r practis cyntaf fynd yn fyw ym mis Tachwedd 2023, mae mwy na 12 miliwn o eitemau presgripsiwn wedi'u hawlio trwy EPS, gyda'r defnydd yn cynyddu'n gyflym (1.9 miliwn o eitemau ym mis Rhagfyr 2025, sef tua 25% o gyfanswm yr eitemau). Mae yna raglen gyflwyno a reolir fesul cam, ac mae EPS ar waith ar hyn o bryd ym mhob ardal bwrdd iechyd ac mewn 135 o bractisiau meddygon teulu (37%), 545 o fferyllfeydd cymunedol (80%) a phob Contractwr Offer Dosbarthu. Bydd nifer y presgripsiynau digidol yn cynyddu'n gyflym wrth i'r cyflwyniad gyrraedd cwrdd daearyddol llawn. Mae'r rhaglen ar y trywydd iawn i gael ei chyflwyno ledled Cymru erbyn mis Tachwedd 2026, blwyddyn cyn amserlen wreiddiol y rhaglen.

Ochr yn ochr â'r cyflwyniad, mae'r rhaglen yn gweithio gyda chleifion, cyflenwyr a phartneriaid i ychwanegu swyddogaethau newydd, gan gynnwys statws presgripsiwn yn yr Ap, chwilio am fferyllfeydd, a chasglu presgripsiynau gan ddefnyddio cod bar o unrhyw fferyllfa. Mae gwaith darganfod hefyd ar y gweill i ymestyn EPS i feddygon sy'n dosbarthu, presgripsiynwyr anfeddygol a gofal eilaidd.

Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Chyd-ddylunio

Fel rhaglen Ap GIG Cymru, mae'r Rhaglen EPS yn gweithio'n agos gyda chleifion a'r cyhoedd i flaenoriaethu, dylunio a datblygu nodweddion newydd a map ffordd ar gyfer y dyfodol. O ystyried y ffocws ar bresgripsiynau, mae yna ymgysylltiad dyfnach â gweithwyr proffesiynol clinigol, yn enwedig gweithwyr fferyllol. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- Paneli Ymchwil Defnyddwyr – sy'n gweithio gyda chleifion a gofalconwyr o gefndiroedd amrywiol i brofi prototeipiau a darparu adborth
- Gweithdai Nodwedd – sy'n gweithio gyda chleifion, clinigwyr a thimau digidol i flaenoriaethu ymarferoldeb yn seiliedig ar anghenion defnyddwyr
- Arolygon ac Adborth – sy'n casglu awgrymiadau drwy arolygon a sianeli ymgysylltu i lywio datblygiad y map ffordd
- Deialog â Llywodraeth Cymru – yn enwedig y Prif Swyddog Fferyllol sy'n gweithredu fel noddwr ar gyfer EPS a Rhaglenni Moddion Digidol eraill, gan ddarparu cyfeiriad proffesiynol a pholisi

Mae'r dull hwn yn sicrhau bod adborth cleifion yn llywio dyluniad a swyddogaeth yn uniongyrchol, gan greu gwasanaeth sy'n gynhwysol, yn dryloyw ac yn ymatebol. Drwy roi mwy o ddewis a gwelededd i gleifion, mae Moddion Digidol yn cefnogi gwell mynediad, diogelwch a grymuso wrth reoli gofal iechyd.

Mae'r Rhaglen EPS hefyd yn cael ei sicrhau trwy lywodraethu a sicrwydd rhaglen rheolaidd, gan sicrhau atebolrwydd tryloyw trwy Fwrdd Rhaglen dan gadeiryddiaeth annibynnol, trefniadau llywodraethu Bwrdd AIA IGDC, a sicrwydd annibynnol trwy adolygiadau archwilio mewnol ac allanol.

Porth Mynediad Deintyddol (DAP)

Lansiodd IGDC y Porth Mynediad Deintyddol yn 2024/2025 i wella sut mae cleifion yng Nghymru yn cael mynediad at ofal deintyddol arferol y GIG. Wedi'i adeiladu ar Blatfform Microsoft Power, mae'r Porth Mynediad Deintyddol yn darparu porth ar y we lle gall cleifion gofrestru ar-lein i gael mynediad at ddeintydd y GIG, gan ddisodli'r broses anghyson flaenorol a oedd yn golygu cysylltu â byrddau iechyd neu ffonio sawl practis.

Effaith a Defnydd

Ers mynd yn fyw ar draws pob bwrdd iechyd ym mis Chwefror 2025:

- Mae dros 83,000 o gleifion wedi cofrestru drwy wefan y Porth Mynediad Deintyddol
- Mae bron i 48,000 o gleifion wedi derbyn cynnig lle mewn practis deintyddol y GIG

Mae hyn yn nodi gwelliant sylweddol o ran hygyrchedd ac effeithlonrwydd i gleifion sy'n ceisio triniaeth ddeintyddol arferol.

Ymgysylltu Cyhoeddus ac Adborth

Ymgysylltodd IGDC â chleifion a rhanddeiliaid drwy gydol y broses ddatblygu i sicrhau bod y porth yn diwallu anghenion defnyddwyr:

- Dylunio sy'n Canolbwyntio ar y Defnyddiwr Profwyd prototeipiau cynnar gyda grwpiau cleifion i ddilysu rhwyddineb defnydd ac eglurder gwybodaeth
- Cydweithio â Byrddau Iechyd: Rhoddodd timau gweinyddu deintyddol adborth ar swyddogaethau cefndirol i symleiddio prosesau dyrannu
- Gwelliant Parhaus: Mae adborth gan gleifion a byrddau iechyd ers y lansiad wedi llywio gwelliannau, gan gynnwys diweddariadau statws cliriach a nodweddion cyfathrebu gwell

Manteision i Gleifion a Gwasanaethau

- Mynediad Symlach: Gall cleifion gofrestru ar-lein heb lywio prosesau cymhleth neu anghyson
- Tegwch a Thryloywder: Mae system genedlaethol safonol yn sicrhau dyraniad teg ac yn lleihau anghydraddoldebau rhanbarthol
- Effeithlonrwydd Gweithredol: Gall byrddau iechyd reoli galw ac argaeledd yn fwy effeithiol, gan wella darpariaeth gwasanaethau

Mae'r Porth Mynediad Deintyddol yn dangos sut mae IGDC yn defnyddio ymgysylltu â'r cyhoedd ac adborth ailadroddus i ddylunio a chyflwyno datrysiadau digidol sy'n gwella profiad cleifion, hygyrchedd a hyder yng ngwasanaethau'r GIG.

Cynhwysiant Digidol

Mae IGDC wedi ymrwymo i sicrhau bod ei wasanaethau iechyd digidol yn hygyrch, yn gynhwysol, ac yn ymatebol i anghenion pawb yng Nghymru. Mae cynhwysiant digidol yn gyfrifoldeb craidd, ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae IGDC wedi cryfhau ei allu drwy benodi Rheolwr Cynhwysiant Digidol a datblygu Cynllun Gweithredu Cynhwysiant Digidol

(2026–2029) i ymgorffori dylunio cynhwysol, cymorth sgiliau, a llwybrau hygyrch ar draws GIG Cymru.

Mae IGDC wedi cyflawni rhaglen waith i gefnogi gwell mynediad, hyder a thegwch ar draws cymunedau:

- **Gwelliannau sy'n cael eu Harwain gan Dystiolaeth** - Mae ymchwil a gomisiynwyd gyda Cwmpas wedi cofnodi profiadau grwpiau nad ydynt yn cael eu clywed yn aml, yn enwedig o ran mynediad at ofal sylfaenol. Mae'r mewnwelediadau hyn wedi llywio modelau dylunio a chymorth mwy cynhwysol, gan sicrhau bod gwasanaethau'n diwallu anghenion amrywiol.
- **Cynlluniau Peilot Cymunedol wedi'u Targedu** - Mae cydweithrediadau â Chlwstwr Meddygon Teulu De-ddwyrain Caerdydd a'r Gymuned Tsieineaidd yng Nghymru wedi gwella hyder digidol a chynyddu defnydd Ap GIG Cymru trwy adnoddau wedi'u trosi a hyfforddiant wedi'i deilwra'n ddiwylliannol.
- **Ymgysylltu Cryfach â'r Cyhoedd** - Mae'r Grŵp Sicrwydd Cleifion a'r Cyhoedd (PPAG) yn darparu mewnwelediad a sicrwydd, gan lunio blaenoriaethau fel bod anghenion, disgwyliadau a phrofiadau bywyd defnyddwyr gwasanaethau yn arwain llwybrau datblygu cynnyrch a chymorth.
- **Mynediad dan Arweiniad Partneriaeth** - Mae IGDC wedi dechrau gweithio gyda phartneriaid fel darparwyr tai cymdeithasol, llyfrgelloedd, grwpiau cymunedol ac awdurdodau lleol, i weld sut y gallwn gefnogi gwaith sy'n anelu at leihau'r rhwystrau i gynhwysiant digidol.
- **Cynyddu Capasiti Sgiliau** - Mae'r rhwydwaith Hyrwyddwyr Digidol sy'n ehangu wedi cefnogi pobl ledled Cymru i ddefnyddio offer digidol GIG Cymru yn ddiogel ac yn annibynnol, gan feithrin hyder a thegwch o ran mynediad at iechyd digidol

Mae ein map ffordd a'n cynllun ar gyfer Cynhwysiant Digidol yn y dyfodol yn cynnwys y canlynol:

- **Cynyddu Hyrwyddwyr Digidol** - hyfforddi mwy o hyrwyddwyr yn 2026–27 i ymestyn cyrhaeddiad ac effaith.
- **Gweithredu'r Cynllun Gweithredu Cynhwysiant Digidol** - gwreiddio cynhwysiant ar draws holl gynhyrchion a gwasanaethau IGDC
- **Canllawiau Gwella Hygyrchedd** - diweddarau safonau a deunyddiau cymorth i sicrhau dyluniad cynhwysol cyson
- **Ehangu Partneriaethau** - cyrraedd mwy o gymunedau sy'n profi rhwystrau digidol drwy fentrau cydweithredol

2 - Cyflwyno gwasanaethau digidol galluogol: Gofal Sylfaenol

Systemau Practis Cyffredinol

Darperir systemau meddygon teulu yng Nghymru drwy contract fframwaith cenedlaethol. Yn ystod 2024/25, cyhoeddodd In Practice Systems Ltd (INPS), un o gyflenwyr y fframwaith, ei fod yn gadael marchnad meddygon teulu Cymru, gan sbarduno prosiect mudo cymhleth ar gyfer 196 o feddygfeydd i un cyflenwr erbyn 2027. Dechreuodd y mudo ym mis Mehefin 2024.

Ym mis Rhagfyr 2024, aeth INPS i ddwylo'r gweinyddwyr yn wirfoddol, gan greu risg sylweddol i'r 154 o bractisiau sydd heb fudo eto. Drwy ymgysylltu'n strategol â'r gweinyddwr a chydweithio â gwledydd eraill y DU, sicrhodd IGDC barhad gwasanaeth drwy drawsnewid i gyflenwr newydd.

Er mwyn lliniaru'r risg, cyflymwyd y cyflymder mudo o fis Hydref 2025 yn dilyn cynllunio trylwyr i gynnal diogelwch clinigol. Disgwylir y bydd y gwaith wedi'i gwblhau erbyn mis Mai 2026. Mae'r cyflymiad hwn hefyd yn galluogi cyflwyno'r Gwasanaeth Presgripsiynau Electronig (EPS) yn gyflymach, sydd ond ar gael drwy system Practis Meddygon Teulu Optum yng Nghymru, gyda'r bwriad o'i weithredu'n llawn erbyn mis Tachwedd 2026.

Mae Audit+ yn offeryn meddalwedd a ariennir gan y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS) a ddefnyddir ar draws holl bractisiau meddygon teulu Cymru i gefnogi gofal clinigol, ansawdd data, adrodd cenedlaethol a llywodraethu. Mae integreiddio â Phorth Gwybodaeth Gofal Sylfaenol IGDC yn galluogi adrodd data ar lefel cleifion ac ar lefel gyfansymiol ar gyfer gofal uniongyrchol a chynllunio ar lefel boblogaeth.

Cyhoeddodd y cwmni sy'n cyflenwi'r feddalwedd hon ei fod yn tynnu'n ôl o'r farchnad ym mis Ebrill 2024. Heb unrhyw ateb cymharol wedi'i ganfod yn y farchnad, mae IGDC yn manteisio ar y galluedd sydd ar gael yn yr Adnodd Data Cenedlaethol i alluogi'r llif data o feddygfeydd teulu i'r saernïaeth genedlaethol. Mae gwaith datblygu gan ddefnyddio data profion wedi bod yn gadarnhaol ac rydym yn gweithio'n weithredol gyda'n partner system meddygon teulu i gyflymu'r gwaith hwn. Un ddibyniaeth allweddol ar gyfer hyn fydd rhoi'r fframweithiau Llywodraethu Gwybodaeth deddfwriaethol a pholisi sydd eu hangen ar waith i ganiatáu prosesu data lefel cleifion go iawn o systemau gwybodaeth glinigol meddygon teulu.

Ymgysylltu ac Adborth

Practis Cyffredinol yw lle mae'r rhan fwyaf o bobl yn cyrchu gwasanaethau gofal iechyd. Mae'n creu cysylltiadau hanfodol rhwng cleifion a chlinigwyr ac yn rhoi'r cyfle gorau i ni ddylanwadu ar ffyrdd iach o fyw a llesiant. Gall adborth gan glinigwyr yn y maes hwn, staff cymorth practisiau a chleifion helpu i yrru gwelliannau a chreu canlyniadau gwell:

- Grŵp Sicrwydd Cleifion a'r Cyhoedd: yn rhoi cipolwg ar sut mae gwasanaethau digidol yn effeithio ar brofiad cleifion, gan lywio blaenoriaethau ar gyfer nodweddion sy'n cefnogi mynediad at wasanaethau
- Profi Cydweithredol: mae ymgysylltu â phractisiau meddygon teulu yn cynnwys dolenni adborth ar welliannau defnyddioldeb a llif gwaith, gan sicrhau bod systemau'n gweithredu'n effeithlon a bod unrhyw welliannau'n cael eu nodi.
- Cyd-fynd â Pholisi Cenedlaethol: datblygir nodweddion i gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer cynhwysiant iechyd digidol a grymuso cleifion

Gwelliant Parhaus

Mae adborth gan glinigwyr a defnyddwyr gwasanaethau yn sbarduno gwelliannau ailadroddus i gynhyrchion GMS, gan sicrhau eu bod yn parhau i fod yn ddibynadwy, yn ddiogel, ac yn cyd-fynd â safonau diogelwch cleifion.

Mae IGDC yn darparu cefnogaeth barhaus ac wedi meithrin perthnasoedd cryf â phractisiau meddygon teulu. Mae'r dull hwn yn cefnogi:

- Llai o faich gweinyddol ar bractisiau, gan ryddhau amser ar gyfer gofal cleifion
- Rhyngweithredadwydd gwell â phlatformau digidol cenedlaethol, gan alluogi teithiau di-dor i gleifion ar draws gwasanaethau GIG Cymru

Ym mis Hydref 2025, cychwynnodd IGDC Brosiect Darganfod Meddygon Teulu a fydd yn nodi datrysiadau digidol i helpu i wella darpariaeth gofal o fewn Practis Cyffredinol, yn unol â Safonau Digidol Llywodraeth Cymru a'r fenter Cymunedol o'r Cychwyn. Bydd y gwaith hwn yn nodi problemau a chyfleoedd, er mwyn gwella effeithlonrwydd practisiau, a llywio dylunio gwasanaethau yn y dyfodol.

Fferylliaeth

Mae fferyllfeydd cymunedol yn ganolog i ddarparu gwasanaethau'r GIG yng Nghymru, gyda chefnogaeth y plattform digidol Dewis Fferyllfa a ddatblygwyd gan IGDC. Ers ei lansio yn 2013, mae'r plattform wedi ehangu i ddiwallu rôl gynyddol fferyllfeydd mewn gofal cleifion. Mae Dewis Fferyllfa ar gael yn 100% o'r holl fferyllfeydd achrededig yng Nghymru.

Ynghyd â darparu mynediad diogel i gofnodion cleifion i fferyllwyr cymunedol a thechnegwyr fferyllfa, mae hefyd yn anfon crynodeb o'r ymgynghoriad yn ôl at y meddyg teulu gan sicrhau profiad gofal sylfaenol cydgysylltiedig. Drwy gyfleuster o'r enw'r Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin (CAS) gellir ystyried fferyllfeydd lleol fel dewis arall yn lle ymweld â meddyg teulu. Mae 27 o anhwylderau gwahanol wedi'u cynnwys o dan CAS, fel:

- Profi a Thrin Gwddf Dolurus
- Haint y Llwybr Wrinol
- Llid yr amrannau
- Dermatitis
- Colig

Mae Dewis Fferyllfa hefyd yn cefnogi presgripsiynu annibynnol. Mae hyn yn galluogi Presgripsiynwyr Annibynnol i gofnodi gwybodaeth glinigol a meddyginiaethau a ragnodir yn ystod ymgynghoriad. Ers lansio'r swyddogaeth hon yn 2020 mae wedi cofnodi dros 450,000 o ymgynghoriadau, gyda 96.5% o gleifion yn dweud y byddent fod wedi ymweld â gwasanaeth gofal iechyd arall pe na baent wedi cael cymorth gan y fferyllfa.

Fodd bynnag, mae rhannau o'r dechnoleg bellach yn hen, gan gyfyngu ar hyblygrwydd, defnyddioldeb ac integreiddio. Mae IGDC yn ailadeiladu Dewis Fferyllfa i greu system fodern, ddiogel a hawdd ei defnyddio sy'n cyd-fynd â *Presgripsiwn Newydd*, sy'n gosod y cyfeiriad ar gyfer fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru yn y dyfodol. Bydd y plattfform newydd yn:

- Symleiddio'r gwasanaeth i gleifion a thimau fferyllfa
- Cefnogi gofal clinigol diogel o ansawdd uchel trwy well llif gwaith
- Gwellu integreiddio â gwasanaethau eraill y GIG
- Cryfhau diogelwch, dibynadwyedd a chydymffurfiaeth â safonau cenedlaethol
- Galluogi rhyddhau gwelliannau'n gyflymach ac yn fwy diogel
- Lleihau gwaith papur trwy ddigidol, data ac awtomeiddio

Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Chyd-ddylunio

Mae'r ailadeiladu yn dilyn dull dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr, gan ymgysylltu â chleifion, gweithwyr proffesiynol fferyllfa, a rhanddeiliaid drwy gydol y cynllunio a'r datblygu. Roedd cyfnodau ymchwil a darganfod yn 2025–26 yn cynnwys gweithdai, cyfweiliadau a sesiynau adborth i nodi pwyntiau poen a blaenoriaethau. Mae mewnwlediadau o'r gweithgareddau hyn wedi llywio'r egwyddorion dylunio a'r map ffordd ymarferoldeb, gan sicrhau bod y plattfform yn diwallu anghenion y byd go iawn.

Mae adborth yn parhau i ddylanwadu ar ddatblygiad trwy brofion ailadroddus ac adolygiadau rhanddeiliaid, gan greu gwasanaeth sy'n reddfod, yn effeithlon ac yn ymatebol. Mae'r plattfform newydd wedi'i gynllunio i fynd yn fyw yn 2026–27, gan ddarparu datrysiad sy'n barod ar gyfer y dyfodol sy'n grymuso timau fferyllfa ac yn gwella profiad cleifion.

Cysylltu Gofal

Mae Cysylltu Gofal yn goruchwyllo'r gwaith o ddarparu ac ailosod Cofnod Iechyd Electronig (EHR) presennol, sef CareDirector, sy'n galluogi rhannu gwybodaeth rhwng iechyd a gofal cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau a chymorth i bobl yng Nghymru. Yn ogystal, mae IGDC yn gweithio mewn partneriaeth â Gofal Cymdeithasol sy'n datblygu eu rhaglen eu hunain. Mae gweithgareddau gweithredu Cysylltu Gofal wedi cael eu datganoli i'r Byrddau Iechyd i'w rheoli. Oherwydd rhai blaenoriaethau mewn Byrddau Iechyd, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i fwrw ymlaen y tu allan i'r rhaglen genedlaethol ar gyfer gweithredu eu Cofnod Iechyd Electronig (EHR) Iechyd Meddwl.

Bydd Cysylltu Gofal yn galluogi gofal iechyd a gofal cymdeithasol integredig ledled Cymru. Mae cysondeb a rhannu gwybodaeth yn sicrhau bod gan wasanaethau ddealltwriaeth

gyflawn o anghenion unigolion sy'n defnyddio eu gwasanaethau, gan leihau'r angen i bobl orfod ailadrodd eu hanes. Mae gan y Rhaglen Cysylltu Gofal bedair ffrwd waith:

1. Cymwysiadau Cymunedol ac Iechyd Meddwl
2. Cofnod Gofal Integredig
3. Dyluniadau a Safonau Digidol
4. Busnes fel arfer ac ymadael Cyfarwyddwr Gofal

Cymwysiadau Cymunedol ac Iechyd Meddwl

Mae sawl Bwrdd Iechyd wedi dechrau caffael cofnodion iechyd electronig newydd yn lle'r rhai eraill, gan ddefnyddio dull a manyleb genedlaethol y cytunwyd arnynt. Mae IGDC yn cefnogi'r holl Fyrddau Iechyd sy'n weddill i ddechrau caffael yn Chwarter 4 25/26 a gweithredu systemau newydd ar draws Iechyd Cymunedol ac Iechyd Meddwl.

Cofnod Gofal Integredig

System yw hon a fydd yn caniatáu i weithwyr gofal iechyd a chymdeithasol proffesiynol rannu gwybodaeth bwysig am gleifion yn ddiogel. Mae hyn yn golygu y gall pawb sy'n ymwneud â gofal claf gydweithio, fel bod cleifion yn cael y cymorth cywir ar yr amser cywir.

Mae gwaith darganfod ar y gweill a bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio i greu achos busnes i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae gwaith darganfod ar y trywydd iawn i gyflawni erbyn diwedd Chwarter 4 25/26.

Dyluniadau a Safonau Digidol

Mae'r rhain yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chasglu'n gyson, gan ganiatáu iddi gael ei rhannu'n haws ar draws gwasanaethau a sefydliadau. Gan adeiladu ar yr hyn a ddatblygwyd yn y Cofnod Gofal Iechyd Meddwl Cenedlaethol a nodi set gyffredin o safonau y gellir eu cymhwyso ar draws gwasanaethau cymunedol a chlystyrau meddygon teulu, gyda chynllun cyflawni wedi'i lunio erbyn Ch4 25/26.

Busnes fel arfer ac ymadael Cyfarwyddwr Gofal

Ar yr adeg hon, bydd y tîm yn parhau i gefnogi a chynnal y system i sicrhau mynediad diogel i bob sefydliad nes iddynt adael y plattform. Mae cynlluniau ymadael Awdurdodau Lleol yn cael eu rheoli gan y Rhaglen Cysylltu Gofal Cymdeithasol a gefnogir gan Awdurdod Llywodraeth Leol Cymru.

Brechiadau / System Imiwneiddio Cymru

Mae tymor brechu 2025–26 yn nodi newid sylweddol yn y ffordd y mae brechiadau COVID-19, y fflw a'r feirws syncytiol anadlol (RSV) yn cael eu cynllunio, eu darparu a'u rheoli ledled Cymru. Am y tro cyntaf, mae pob taith frechu'r gaeaf yn erbyn feirysau anadlol cael ei chefnogi o'r dechrau i'r diwedd gan System Imiwneiddio Cymru (WIS), gan alluogi monitro ar lefel person o nifer y bobl sy'n cael eu brechu rhag y fflw ac yn grymuso astudiaethau cenedlaethol ar nifer y bobl sy'n cael eu brechu, tegwch ac effeithiolrwydd. Mae WIS bellach yn cefnogi dros 26,000 o ddefnyddwyr ar draws mwy na 3,100 o leoliadau, gyda bron i 13 miliwn o frechiadau wedi'u cofnodi ers ei lansio yn 2020 - gan ddangos gallu cenedlaethol sy'n aeddfedu yn hytrach na phrosiect â chyfyngiad amser.

Mae WIS wedi'i gynllunio a'i weithredu fel gwasanaeth cenedlaethol sengl, o'r dechrau i'r diwedd. Mae'n agor yn uniongyrchol o fewn systemau clinigol meddygon teulu fel y gellir cofnodi brechiadau heb adael y llif gwaith clinigol - gan wella ansawdd data, cryfhau rhannu data a chynyddu effeithlonrwydd pwynt gofal.

Cyflwyno ailadroddus, sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr: Mae ymgysylltu rheolaidd â chlinigwyr, staff a defnyddwyr gwasanaethau yn sbarduno gwelliannau parhaus, gan gynnwys yn ystod ymgyrchoedd brechu byw, gan ganiatáu ymatebion cyflym i newid polisi, dysgu gweithredol a risgiau sy'n dod i'r amlwg.

Gan weithredu ar safonau data iechyd a gydnabyddir yn rhyngwladol, mae WIS yn galluogi argymhellion yn seiliedig ar gymhwysedd o fewn llofoedd gwaith clinigol. Mae hyn yn cefnogi gwell presenoldeb, yn lleihau apwyntiadau sy'n cael eu methu, yn gwneud y gorau o amser staff a stoc brechlynnau, ac yn darparu mewnwelediad bron mewn amser real i dargedu'r ddarpariaeth yn deg ledled Cymru.

Ar hyn o bryd, WIS yw'r unig system glinigol yng Nghymru sy'n cofnodi nifer o frechiadau'n ddiogel mewn un apwyntiad heb ddyblygu; yn ystod y tymor hwn, derbyniodd dros 114,000 o bobl frechiadau COVID-19 a'r fflw gyda'i gilydd trwy'r gallu cyd-weinyddu hwn.

Mae gwelededd cenedlaethol bellach yn dangos pob brechlyn fflw ym mhob oergell ym mhob lleoliad brechu, gan alluogi monitro cydymffurfiaeth rhagweithiol, nodi gormodedd yn gynnar ac ailddosbarthu. Mae hyn yn hanfodol i leihau gwastraff a chyflawni'r gwerth a'r effeithlonrwydd a dargedir gan y rhaglen Caffael Brechlyn Fflw yn Ganolog, gan gynnal diogelwch ar yr un pryd.

Erbyn mis Rhagfyr 2025, roedd WIS wedi'i ddiweddarau i gefnogi'r newidiadau i'r amserlen imiweiddio plant a ddaeth i rym o 1 Ionawr 2026, gan sicrhau cofnodi ac amserlennu cywir o'r diwrnod cyntaf a dangos y gwydnwch i weithredu polisi cenedlaethol ar gyflymder.

At ei gilydd, mae buddsoddiad cynaliadwy yn WIS yn darparu platfform cenedlaethol gwydn, sy'n seiliedig ar safonau ac sy'n cael ei yrru gan ddata, sy'n hyrwyddo atal, gwerth am arian a lleihau amrywiad diangen—gan gryfhau gwydnwch iechyd y cyhoedd a galluogi gwasanaethau brechu mwy craff, mwy diogel a mwy canolog i'r person bob blwyddyn.

Gwasanaeth Presgripsiynau Electronig (EPS)

Disgrifir y Rhaglen EPS Gofal Sylfaenol yn fanylach uchod o dan wasanaethau sy'n wynebu cleifion.

Mae'r rhaglen yn rheoli dylunio, integreiddio a chyflwyno llwybrau meddyginiaethau cwbl ddigidol ar draws gofal sylfaenol, gan gynnwys meddygfeydd teulu, fferyllfeydd cymunedol, a chontractwyr dosbarthu.

Mae'r broses gyflwyno'n mynd rhagddi'n gyflym ac mae ar y trywydd iawn i gael ei chwblhau flwyddyn cyn amserlen wreiddiol y rhaglen, ym mis Tachwedd 2026.

2 - Cyflwyno gwasanaethau digidol galluogol: Gofal Eilaidd

Cynhyrchion Cofnod Sengl

Mae cynhyrchion y Cofnod Sengl yn gyfres o gymwysiadau a gwasanaethau digidol a ddatblygwyd gan GIG Cymru ac ar ei gyfer, wedi'u cynllunio i uno gwybodaeth am gleifion a chefnogi darparu gofal yn ddi-dor ar draws gofal iechyd eilaidd. Mae'r gyfres Cofnod Sengl yn darparu cofnod cleifion unedig ac awdurdodol sydd ar gael i weithwyr gofal iechyd proffesiynol ledled Cymru, waeth beth fo'u lleoliad gofal. Mae'n sail i ddarparu gofal yn ddi-dor ac yn cefnogi diogelwch clinigol.

Porth Clinigol Cymru (WCP)

Porth Clinigol Cymru yw'r platfform cofnodion cleifion digidol cenedlaethol. Mae dros 40,000 o weithwyr gofal iechyd proffesiynol yn ei gyrchu. Mae'n darparu:

- Mynediad diogel, wedi'i archwilio i 68 miliwn o ddogfennau a 288 miliwn o ganlyniadau profion, gan gynnwys delweddu
- Cofnodion cryno meddygon teulu ar gyfer 3.3 miliwn o ddinasyddion
- Mewnforio meddyginiaethau yn rheolaidd ar gyfer 25,000 o gleifion bob mis, gan leihau gwallau trawsgrifio
- Data am alergeddau a rhybuddion ar gyfer 58,000 o gleifion, gan wella diogelwch rhagnodi

Prif fanteision:

- Mae atgyfeiriadau digidol gan feddygon teulu yn arbed 5–7 diwrnod ar lwybrau triniaeth
- Mae negeseuon electronig yn lleihau apwyntiadau cleifion allanol diangen
- Mae Ceisiadau am Brawf Electronig (ETR) yn cefnogi llwybrau mynd am brawf yn syth, gan gyflymu diagnosis o ganser
- Mae'n cefnogi 4,900 o gyfarfodydd Tîm Amlddisgyblaethol (MDT) bob mis, gyda 1,755 o achosion cancer newydd yn cael eu cofnodi'n ddigidol
- Mae Siartiau Twf Pediatrig Cenedlaethol (yn seiliedig ar FHIR) yn gwella monitro tueddiadau gordewdra, gyda 24,000 o siartiau wedi'u creu ers mis Mawrth 2025
- Mae swyddogaethau arbenigol yn cynnwys delweddu colposgopi gwell ar gyfer gofal cancer, gan wella gwneud penderfyniadau a pharhad
- Mae'n cefnogi trosglwyddo gofal ar draws ffiniau byrddau iechyd, gyda 18% o'r holl ganlyniadau diagnostig a 20% o ddogfennau clinigol yn cael eu gweld gan glinigwyr mewn sefydliad gwahanol pan fydd y claf yn cael ei drosglwyddo

Mae Porth Clinigol Cymru Symudol (WCP Mobile) yn ymestyn mynediad at ddata cleifion a nodweddion allweddol ar iOS ac Android, gyda dros 1,000 o ddefnyddwyr rheolaidd.

System Gweinyddu Cleifion Cymru (WPAS)

System Gweinyddu Cleifion Cymru yw'r system weinyddu ysbytai graidd ar draws chwe Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Dyma'r system genedlaethol sy'n sail i reoli llwybrau cleifion ym maes Gofal Eilaidd. Defnyddir System Gweinyddu Cleifion Cymru bob dydd gan dros 20,000 o staff gweinyddu ysbytai ac wardiau ac mae'n chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau bod cleifion yn y lleoliad cywir ar yr amser cywir, gan gefnogi gofal heb ei drefnu, atgyfeiriadau, rheoli rhestrau aros, amserlennu clinigau, a derbyniadau i wardiau.

Mae System Gweinyddu Cleifion Cymru yn rheoli hyd at 480,000 o apwyntiadau clinig ac 80,000 o achosion cleifion mewnol bob mis. Mae Byrddau Iechyd yn defnyddio System Gweinyddu Cleifion Cymru i reoli ac adrodd ar amseroedd Atgyfeiriad am Driniaeth (RTT) yn erbyn Targedau Llywodraeth Cymru.

Mae'r newid i weinyddu cleifion yn ddigidol wedi dileu miloedd o oriau o ymdrech â llaw bob blwyddyn, gan leihau'r angen i olrhain nodiadau papur a pharatoi atgyfeiriadau'n weinyddol, gan gefnogi cynnydd mewn niferoedd cleifion.

Cofnod Gofal Nyrsio Cymru (WNCR)

Mae Cofnod Gofal Nyrsio Cymru wedi trawsnewid dogfennaeth nyrsio drwy ddisodli cofnodion papur â phlatform digidol diogel a safonol. Mae'r cynnyrch hwn wedi'i gynllunio a'i lunio'n barhaus trwy arweinyddiaeth glinigol gref, ac ymgysylltiad parhaus â'r gymuned nyrsio i sicrhau ymatebolrwydd i anghenion y rheng flaen.

Prif fanteision:

- Defnyddir Cofnod Gofal Nyrsio Cymru ar bob ward i oedolion, ac mae bellach yn dal dros 58 miliwn o asesiadau risg digidol ar gyfer mwy na 650,000 o gleifion
- Caiff ei ddefnyddio gan 21,000 o nyrsys bob mis
- Mae Cofnod Gofal Nyrsio Cymru wedi safoni'r broses asesu risg a ddefnyddir gan nyrsys ar draws pob ward oedolion yng Nghymru, gan alluogi gofal mwy diogel a chyson, a chreu set ddata genedlaethol unedig, gan gefnogi cydymffurfiaeth ac adrodd.
- Mae wedi'i brofi i arbed 8 munud fesul aildderbyniad, gan wella diogelwch yn ystod trosglwyddiadau
- Mae IGDC yn y broses o ymestyn swyddogaeth Cofnod Gofal Nyrsio Cymru i gwmpasu wardiau Pediatrig, gyda'r bwriad o'i gyflwyno ar ôl Ebrill 2026.
- Ar gyfartaledd, caiff 20% o ffurflenni nyrsio eu darllen ar draws ffiniau byrddau iechyd, gan alluogi mynediad uniongyrchol at wybodaeth am drosglwyddo cleifion rhwng sefydliadau, a lleihau'r amser a wastraffir wrth gwblhau'r un ffurflen eto.

Canser

Cyflwynwyd y canlynol gan y Rhaglen Gwybodeg Canser (CIP):

- Trosglwyddo swyddogaeth i Borth Clinigol Cymru (WCP) a System Gweinyddu Cleifion Cymru (WPAS)
- Cyflwyno Tîm Amlddisgyblaethol Canser ac e-ffurflenni setiau data yn genedlaethol ar gyfer casglu data cyson
- Prosesau mynd yn fyw ar gyfer Canolfan Ganser Felindre (Tachwedd 2022), Gofal Lliniarol (Rhagfyr 2024), a Sgrinio/Colposgopi (Gorffennaf 2025)
- Cau Rhaglen Gwybodeg Canser ym mis Hydref 2025, gyda thanwariant o £54k

Er bod yr amcanion craidd wedi'u cyflawni, mae set ddiffiniedig o weithgareddau heb eu cynnal o hyd, yn bennaf yn ymwneud ag integreiddio pellach, cyflawnrwydd adrodd, ac ehangu crynodebau triniaeth (radiotherapi a therapïau gwrth-ganser systemig) y tu hwnt i Felindre i rwydweithiau cancer eraill. Mae'r eitemau hyn yn dibynnu ar barodrwydd y system leol, ymgysylltiad gan gyflenwyr, a phenderfyniadau blaenoriaethu.

Cafodd y system CaNISC etifeddol ei datgomisiynu yn 2025, a'i disodli gan dair swyddogaeth graidd: system gweinyddu cleifion (PAS), cofnod gofal cancer electronig, a storfa data cynnydd a chanlyniadau.

Mae IGDC yn gweithio gyda Bwrdd Arweinyddiaeth Canser Perfformiad a Gwella'r GIG dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Brif Swyddog Meddygol ar fap ffordd data cancer.

System Gofal Dwys Cymru (WICIS)

Sefydlwyd rhaglen WICIS yn 2019 i foderneiddio gofal dwys drwy ddisodli systemau papur amrywiol gydag un platform digidol ar draws pob gwely yn yr Uned Gofal Dwys yng Nghymru. Cafodd y rhaglen ei chymeradwyo gan Rwydwaith Gofal Critigol Cymru a'i chefnogi gan bob Prif Weithredwr drwy Gydweithrediaeth GIG Cymru. Roedd caffael a dewis cyflenwyr yn cynnwys pob partner, ac roedd y ffurfweddu dan arweiniad clinigol, gyda chefnogaeth y rhwydwaith cenedlaethol.

Bu cyfnod ffurfweddu estynedig, gydag oedi wedi'i achosi gan newidiadau i'r gofynion ffurfweddu. Ar ôl cwblhau'r ffurfweddu, cyn mynd yn fyw, nododd profion derbynioldeb defnyddwyr bryderon sylweddol, a oedd yn gofyn am ailgynllunio sylweddol a ffurfweddu pellach. Ar y cam hwn hefyd, daeth gwahaniaeth barn i'r amlwg rhwng grwpiau clinigol ynghylch gofynion ffurfweddu. Yn ogystal, nododd rhai sefydliadau eu bwriad i dynnu'n ôl o'r rhaglen o blaid opsiynau lleol eraill.

Cafodd y rhaglen ei hoedi gan Lywodraeth Cymru yn 2024. Daeth adolygiad allanol i'r casgliad, er nad oedd y system yn dderbyniol yn glinigol yn ei ffurf bresennol, y gellid ei gwella. Cafodd llywodraethiant y rhaglen ei adnewyddu yn 2025. Arweiniodd IGDC gydweithio tuag at ofynion a chyfluniad y cytunwyd arnynt, a nododd Llywodraeth Cymru y camau nesaf ac amserlen i ddod i gytundeb ar ofynion.

Mae IGDC yn parhau i weithio gyda phartneriaid cyflawni byrddau iechyd a Llywodraeth Cymru i gadarnhau ffordd ymlaen, wedi'i chefnogi gan opsiynau ac argymhellion a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd.

Set Ddata Gofal Brys Cymru (WECDS)

Mae IGDC yn arwain ac yn cydlynu gwaith i wella casglu ac adrodd data gofal brys ar draws GIG Cymru, ar ran y Rhaglen Trawsnewid Chwe Nod. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- Datblygu 'Set Ddata Gofal Brys Cymru' newydd sydd yn orfodol ar draws GIG Cymru
- Adeiladu storfa ddata a rhyngwynebau yn yr Adnodd Data Cenedlaethol i dderbyn data gan fyrdau iechyd ledled Cymru
- Adeiladu 'Modiwl Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng' newydd ym Mhorth Clinigol Cymru a fydd yn galluogi casglu data
- Cydlynu ac adrodd ar 'safleoedd blaenllaw' ledled Cymru a fydd y cyntaf i adrodd data Set Ddata Gofal Brys Cymru

Yn hanesyddol, mae ansawdd adrodd data gofal brys wedi bod yn anfoddhaol, o ran amseroldeb, cwmpas a manylder. Mae Llywodraeth Cymru wedi gorchymyn casglu ac adrodd data Set Ddata Gofal Brys Cymru gan fyrdau iechyd ar draws GIG Cymru. Mae sawl system feddalwedd wahanol yn cael eu defnyddio mewn adrannau achosion brys ac unedau mân anafiadau ledled Cymru, gan gynnwys System Gweinyddu Cleifion Cymru (a adeiladwyd gan IGDC ac a reolir yn lleol), Symphony (cynnyrch masnachol), ac EU Workstation (cynnyrch a adeiladwyd yn fewnol). Bydd angen i bob system ddarparu data i storfa ddata ganolog yr Adnodd Data Cenedlaethol trwy rhyngwynebau cyffredin.

Y bwriad yw y bydd sefydliadau sy'n defnyddio System Gweinyddu Cleifion Cymru ar gyfer gofal brys yn uwchraddio i ddefnyddio'r modiwl Porth Clinigol Cymru newydd. Mae mudo i'r modiwl Porth Clinigol Cymru hefyd yn opsiwn i sefydliadau sy'n talu am systemau masnachol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae byrdau iechyd yn gallu gwneud eu penderfyniadau eu hunain ar feddalwedd, ac mae rhai yn ystyried mudo o System Gweinyddu Cleifion Cymru i gynhyrchion masnachol, neu gadw eu system fasnachol / fewnol bresennol.

O safbwynt Unwaith i Gymru, bydd y safon ddata gyffredin a'r storfa ddata yn darparu rhyngweithrediadau data, hyd yn oed os oes gwahanol systemau pen blaen yn cael eu defnyddio ledled Cymru.

Dyma yw'r sefyllfa bresennol:

- **Safonau Data** – wedi'u cwblhau
- **Storfa Ddata a Rhyngwynebau'r Adnodd Data Cenedlaethol** – wedi'u cwblhau (er nad yw data'n llifo o systemau lleol eto sydd â phroffion byd go iawn cyfyngedig)
- **Datblygu Ap Porth Clinigol Cymru UEC** – cwblhawyd y gwaith adeiladu cychwynnol, dangoswyd ef i arweinwyr y Rhaglen Chwe Nod, derbyniwyd ef yn dda gan

ddefnyddwyr, ac mae bellach yn dechrau'r broses derfynol cyn y cyfnod 'profi derbynioldeb defnyddwyr' erbyn mis Mawrth.

- **Safleoedd Blaenllaw Byrddau Iechyd** – ar gyfer safleoedd sy'n defnyddio Symphony, mae profion integreiddio technegol yn gwneud cynnydd, mae profion derbynioldeb defnyddwyr wedi'u cwblhau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac mae wedi'u hamserlennu ar gyfer safleoedd eraill erbyn mis Mawrth 2026.

Diagnosteg (LIMS, RISP)

Dros y blynyddoedd diwethaf mae GIG Cymru wedi cyflawni sawl rhaglen fawr i gydgrynhoi systemau diagnostig digidol i ddatrysiadau Cymru gyfan. Mae prif systemau'n cynnwys y canlynol:

- Delweddu radioleg Cymru Gyfan (PACS), sy'n galluogi gweld delweddau mewn unrhyw sefydliad
- System Labordy Cymru Gyfan (LIMS), sy'n cefnogi profion ar draws 38 o labordai a bron i 8000 o leoliadau
- Porth Clinigol Cymru, sef pen blaen defnyddwyr i Wasanaeth Adrodd Canlyniadau Cymru (WRRS), ceisiadau prawf electronig Cymru gyfan (ETR), a cheisiadau am brofion gan feddygon teulu i ofal eilaidd (GPTR)
- Profi Pwynt Gofal Cymru Gyfan (POCT), sef un haen rhyngwyneb lle mae bron i 3000 o ddyfeisiau wedi'u cysylltu â gwasanaethau diagnostig digidol cenedlaethol

Mae GIG Cymru mewn sefyllfa eithriadol - mae sylw cenedlaethol ar draws sefydliadau ar y raddfa hon yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan glinigwyr a gweithwyr proffesiynol ac mae'n anodd iawn ei gyflawni mewn system iechyd aml-sefydliad. Gwasanaethau hanfodol yw'r rhain – ni all system iechyd weithredu heb ddiagnosteg.

Rhaglenni Diagnosteg

Ar hyn o bryd mae GIG Cymru yng nghyfnodau olaf y rhaglen amnewid diagnosteg ddigidol fwyaf a mwyaf uchelgeisiol yn Ewrop. Rydym yn disodli'r system LIMS genedlaethol a'r system PACS genedlaethol ar yr un pryd, ar draws pob sefydliad, mewn amserlen gywasgedig gyda chynlluniau mynd yn fyw ar draws pob sefydliad dros gyfnod o 12 mis. Mae yna ddwy raglen allweddol:

- LIMS 2.0 – yn disodli'r system LIMS genedlaethol.
- RISP – disodli'r system PACS genedlaethol a'r system wybodaeth radioleg genedlaethol.

Mae'r rhain yn rhaglenni cydweithredol cymhleth, sy'n cynnwys holl bartneriaid Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG, caffael aml-flwyddyn, cyflenwyr masnachol allanol, a chyfnodau mudo data, ffurfweddu a phrofi defnyddwyr heriol iawn.

Sefydlwyd a rheolwyd y ddwy raglen gan Gydweithrediaeth GIG Cymru, o 2019 ymlaen, trwy gyfnodau caffael, cyn cael eu trosglwyddo i IGDC ym mis Ionawr 2023. Roedd angen gwaith adfer ar y ddwy raglen i adfer eu hamserlenni gweithredu, i ailosod llywodraethu rhaglenni, ac mewn un achos i ail-drafod y contractau masnachol, a arweiniodd at newid

cyflenwr. O ganlyniad i oedi mewn cyfnodau cynharach, cafodd y cyfnod gweithredu ar gyfer y ddwy raglen - sy'n cwmpasu ffurfweddu, profion technegol, profion defnyddwyr, parodrwydd defnyddwyr a chyfnodau mynd yn fyw - ei gywasgu'n fawr. Mae hyn hefyd wedi arwain at redeg y ddwy raglen ar yr un pryd. Nid y bwriad gwreiddiol oedd hyn.

System Rheoli Gwybodaeth Labordy (LIMS) 2.0

Mae LIMS 2.0 yn rhaglen gymhleth sydd â phum 'haen' weithredu gam wrth gam:

1. Parodrwydd Technegol
2. Patholeg Gellog
3. Microbioleg
4. Gwyddorau Gwaed
5. Trallwysiad Gwaed

Mae pob un o'r haenau hyn yn gofyn am brofion helaeth gan ddefnyddwyr labordy, i roi sicrwydd o ran profiad y defnyddiwr ond hefyd, ac yn bwysicach fyth, i roi sicrwydd o ran ansawdd a chywirdeb. Mae hon yn her ar raddfa fawr – ledled Cymru mae 2332 o brofion wedi'u ffurfweddu, 16,292 o ystodau wedi'u diffinio, a 13,102 o gyfrifiadau canlyniadau. Mae angen gwaith sylweddol hefyd i ddilysu mudo data o systemau blaenorol, yn enwedig ar gyfer Trallwysiad Gwaed.

Dyfarnwyd contract cyflenwr yn 2021, gyda chynllun i'w weithredu erbyn mis Medi 2023. Ni chyflawnwyd yr amserlen hon, a arweiniodd at drosglwyddo'r rhaglen i IGDC a chontract cyflenwr newydd, gan arwain at amserlen newydd. Cydnabuwyd gan bob partner fod yr amserlen newydd yn hynod heriol, ac mae wedi dod o dan bwysau eithafol trwy gydol 2025, yn enwedig o ran profi derbyniad defnyddwyr a datrys problemau a nodwyd trwy brofion.

Ar hyn o bryd mae'r rhaglen yn rhagweld y canlynol:

1. Parodrwydd Technegol - wedi'i gwblhau
2. Patholeg Gellog – mynd yn fyw yn gyntaf ym mis Ionawr 2026. Rhagwelir y bydd wedi'i gwblhau erbyn Ch4 (Mawrth)
3. Microbioleg – Rhagwelir y bydd wedi'i gwblhau erbyn Ch4 (Mawrth)
4. Gwyddorau Gwaed – disgwylir cyflwyno cydrannau allweddol ym mis Ionawr 2026, dyddiad cwblhau dan adolygiad, disgwylir y bydd wedi'i gwblhau erbyn Ch1 (Ebrill-Mehefin)
5. Trallwysiad Gwaed – dyddiad cwblhau dan adolygiad, disgwylir y bydd wedi'i gwblhau erbyn Ch2 (Gorff-Medi)

Mae adrodd, sicrwydd a chraffu dwys ar Raglen LIMS 2.0, sy'n adlewyrchu cymhlethdod a dwyster y ddarpariaeth yng nghyfnodau olaf y cyfnod gweithredu. Yn ogystal â llywodraethu rhaglenni rheolaidd a Bwrdd IGDC, mae LIMS 2.0 wedi cael ei drafod ym mhob Grŵp Cyfoedion Cyfarwyddwyr Digidol misol a Grŵp Cyfoedion Prif Weithredwyr ers canol 2025.

Mae'r her gyflwyno wedi sbarduno ymateb tra chydweithredol, gan gynnwys, er enghraifft, brofion derbynioldeb defnyddwyr ar y cyd lle mae un sefydliad yn gweithredu ar ran pawb.

Caffael System Wybodaeth Radioleg (RISP)

Mae tair prif elfen i'r Rhaglen RISP:

- Disodli'r System Archifo Lluniau a Chyfathrebu genedlaethol (PACS)
- Disodli'r System Gwybodaeth Radioleg (RIS) genedlaethol
- Disodli systemau System Rheoli Dos Cleifion (PDMS)

Mae pedwar sefydliad wedi mynd yn fyw gyda RISP yn 2025, gyda'r gweddill i ddilyn eleni. Yn ystod 2025 mae amserlen y rhaglen wedi dod dan bwysau cynyddol. Y prif ffactorau yw oedi wrth brofi derbynioldeb defnyddwyr a mudo data. Mae sawl sefydliad wedi gofyn am newidiadau i'w dyddiad gweithredu arfaethedig, gan gynnwys dau sefydliad yn gofyn am symud i fis Ebrill a mis Mai 2026.

Mae'r heriau'n cael eu gyrru yn gyntaf gan yr angen i drawsnewid o'r cyflenwr PACS presennol i'r cyflenwr newydd, sy'n gofyn am fudo data delweddu hanesyddol a chyfnod o 'redeg deuol' lle mae angen i sefydliadau gael mynediad at hen archifau ac archifau newydd. Yn ail, mae'r contract masnachol ar gyfer rhaglen RISP yn gytundeb gwasanaethau meistr, lle mae pob sefydliad yn mynd i berthynas fasnachol uniongyrchol â'r cyflenwr, trwy orchymyn defnyddio – mae hyn yn caniatáu i sefydliadau symud eu dyddiad mynd yn fyw yn unochrog, sydd ag effaith ar sefydliadau eraill oherwydd bod y gyfres o weithrediadau eisoes wedi'u trefnu'n dynn, ac mae gan y cyflenwr gapasiti cyfyngedig i reoli gweithrediadau cyfochrog mewn sefydliadau ar wahân.

Fel rhaglenni cydweithredol eraill, mae gan Raglen RISP lywodraethu a sicrwydd cadarn, ac adrodd tryloyw. Mae bwrdd y rhaglen yn cael ei gadeirio'n allanol gan gyfarwyddwr digidol y bwrdd iechyd. Mae'r rhaglen yn cynyddu trwy lywodraethu Bwrdd IGDC ac yn adrodd yn gyhoeddus trwy Bwyllgor Cyflawni Rhaglenni IGDC. Mae grŵp cyfoedion y cyfarwyddwyr digidol yn derbyn adroddiad misol. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn adroddiadau misol ac yn mynd i gyfarfodydd bwrdd y rhaglen fel arsylwr.

Rhaglen Rhagnodi a Gweinyddu Meddyginiaethau yn Electronig (ePMA)

Mae EPMA yn rhan o bortffolio o raglenni moddion digidol, sy'n canolbwyntio ar systemau ysbytai, sy'n eistedd ochr yn ochr â'r rhaglen EPS gofal sylfaenol a ddisgrifir uchod. Gyda'i gilydd, bydd y rhaglenni moddion digidol yn digideiddio rhagnodi a rheoli meddyginiaethau ar draws GIG Cymru, gan gyflawni yn erbyn polisi'r llywodraeth a osodwyd yn 2021.

Gosododd datganiad Gweinidogol ym mis Mai 2022 ddisgwyliad pum mlynedd ar gyfer cwblhau rhaglenni moddion digidol, gan gynnwys EPMA. Mae'r rhaglenni ar y trywydd iawn i'w cwblhau yn ystod 2026.

Mae IGDC yn rheoli'r Rhaglen EPMA Genedlaethol, sy'n gyfrifol am sefydlu fframwaith caffael aml-werthwr, darparu Cofnod Meddyginiaethau a Rennir cyffredin ar blatfform yr

Adnodd Data Cenedlaethol, a chefnogi gweithrediadau lleol trwy drosglwyddo gwybodaeth a mecanweithiau eraill.

Mae Rhaglenni EPMA Lleol ym mhob sefydliad, a ariennir ar wahân gan Lywodraeth Cymru yn erbyn achosion busnes lleol. Drwy'r fframwaith caffael, mae sefydliadau lleol yn dewis eu cyflenwr dewisol ac yn rheoli eu gweithrediad lleol, drwy'r cyfnodau ffurfweddu, integreiddio, profi, mynd yn fyw a chyflwyno. Mae byrddau iechyd yn atebol yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru am gyflawni eu rhaglenni.

Y sefyllfa bresennol:

- Mae pob Bwrdd Iechyd wedi dewis cyflenwr a ffefrir. Bydd tri chyflenwr gwahanol o systemau EPMA ledled Cymru pan fydd yr holl raglenni wedi'u cwblhau
- Mae Bae Abertawe yn fyw gydag EPMA, ar ôl bod yn sefydliad arloesol cyn sefydlu'r rhaglenni moddion digidol presennol.
- Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (gan ddefnyddio Nervecentre) a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (gan ddefnyddio Better) yn fyw ac yn y cyfnod cyflwyno
- Betsi Cadwaladr / Better yw'r unig system sy'n gysylltiedig â'r Cofnod Meddyginiaethau a Rennir.
- Mae sefydliadau eraill wedi'u hamserlennu i fynd yn fyw trwy 2026

Microsoft 365

Mae IGDC yn rhedeg Canolfan Ragoriaeth Microsoft 365 genedlaethol, sy'n cefnogi sut mae staff GIG Cymru yn cydweithio bob dydd. Mae Microsoft 365 yn cynnwys offer cyfarwydd fel Windows 11, Word, Excel, PowerPoint, Teams, e-bost, a chynhyrchion deallusrwydd artiffisial fel CoPilot. Mae pob sefydliad GIG Cymru — gan gynnwys practisiau meddygon teulu a fferyllfeydd cymunedol — yn defnyddio un system Microsoft 365 a rennir. Mae hyn yn ei gwneud hi'n haws i staff ledled Cymru gyfathrebu, rhannu gwybodaeth a gweithio'n ddiogel.

Mae Canolfan Ragoriaeth Microsoft 365 yn cefnogi cydweithio a diogelwch ar draws GIG Cymru drwy:

- Un amgylchedd Microsoft 365 i bob sefydliad GIG Cymru, gan gynnwys practisiau meddygon teulu a fferyllfeydd
- Adolygiad annibynnol yn rhestru GIG Cymru ymhlith y gosodiadau sydd wedi'u ffurfweddu orau yn fyd-eang
- Mae'r Ganolfan Ragoriaeth yn arwain strategaeth, yn negodi cytundebau cenedlaethol (~£34M y flwyddyn), yn ysgogi mabwysiadu, yn treialu arloesi (deallusrwydd artiffisial, awtomeiddio), ac yn rheoli diogelwch ar gyfer dros 130,000 o ddyfeisiau.
- Ar hyn o bryd mae IGDC a'r Ganolfan Ragoriaeth yn arwain y gwaith o ailgaffael Cytundeb Menter Microsoft, ar ran holl sefydliadau GIG Cymru gyda chyfanswm gwerth contract o dros £170m dros y tymor 5 mlynedd.

Mamolaeth

Ar draws GIG Cymru, mae pob bwrdd iechyd wedi cael cyfarwyddyd i weithredu'r un system famolaeth ddigidol, erbyn mis Mawrth 2026.

Mae dau fwrdd iechyd (Aneurin Bevan a Chaerdydd a'r Fro) yn fyw ar y system ddigidol newydd. Mae pum bwrdd iechyd yn eu cyfnod gweithredu, gan weithio trwy ffurfweddu, integreiddio, profi a derbynioldeb defnyddwyr, cyn mynd yn fyw. Mae byrddau iechyd yn atebol yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru am eu gweithrediadau mamolaeth.

Mae IGDC yn cefnogi gweithrediadau byrddau iechyd lleol drwy:

- Ddatblygu Safon Cofnodi Data Mamolaeth gyffredin – Cyhoeddwyd hon ym mis Hydref 2025, yn seiliedig ar DAPB 3066 GIG Lloegr, gan sicrhau bod data clinigol yn cael ei gasglu'n gyson
- Datblygu Safon Adrodd Data Mamolaeth gyffredin – Mae hon wedi'i datblygu a'i sicrhau, ac mae'n cael ei heffaith yn cael ei hasesu gan fyrddau iechyd a'r cyflenwr ar hyn o bryd, gyda'r bwriad o'i chyhoeddi ym mis Mawrth 2026
- Darparu integreiddio technegol i Wasanaeth Hysbysiadau Geni Cymru – Mae profion derbynioldeb defnyddwyr, sydd ar gael i fyrddau iechyd byw, ar y gweill ar gyfer y pum sefydliad yn eu cyfnod gweithredu
- Darparu integreiddio technegol i ddata Derbyn/Rhyddhau/Trosglwyddo (ADT) cenedlaethol – Ar gael i bob bwrdd iechyd o fewn 6 wythnos yn dilyn cais blaenoriaeth frys ddechrau mis Hydref 2025

Ar ôl cwblhau'r cyfnod hwn bydd gan bob bwrdd iechyd yr un lefel o integreiddio ledled Cymru. Mae byrddau iechyd wedi gofyn am integreiddiadau pellach, nad ydynt yn hanfodol ar gyfer mynd yn fyw, ac mae'r rhain yn cael eu cynllunio ar gyfer 2026-27.

Gofal llygaid

Ym mis Mehefin 2025, comisiynodd Llywodraeth Cymru IGDC i gaffael datrysiad tactegol ar gyfer e-atgyfeiriadau Optometreg.

Cerrig milltir allweddol:

- Caffael cyflym wedi'i gwblhau erbyn mis Hydref 2025; contract wedi'i ddyfarnu
- Gweithredu wedi'i gydlyn gan dîm Gofal Sylfaenol IGDC, gyda chefnogaeth Grŵp Cyflawni Trosolwg gyda chynrychiolaeth o Fyrddau Iechyd
- Cynllun cyflwyno wedi'i drefnu ar gyfer dechrau 2026, gyda'r Bwrdd Iechyd cyntaf wedi'i gynllunio i fynd yn fyw erbyn mis Mawrth 2026

Bydd y datrysiad hwn, sy'n cael ei gynnal yn y cwmwl, yn galluogi atgyfeiriadau digidol diogel rhwng optometryddion a gwasanaethau gofal llygaid ysbytai, gan leihau oedi a gwella profiad cleifion.

Fel rhan o waith gwella parhaus IGDC, mae gwaith wedi'i wneud i foderneiddio'r peiriant atgyfeiriadau o fewn y saernïaeth ganolog. Bydd y gwasanaeth hwn yn cefnogi trosglwyddo atgyfeiriadau o bractisiau optometreg i ofal eilaidd yn ddiogel ac yn effeithlon.

Iechyd Meddwl

Mae IGDC yn bartner strategol wrth drawsnewid gwasanaethau iechyd meddwl, gan weithio gyda Llywodraeth Cymru, y Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl, ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Mae'r gwaith yn cwmpasu pedwar maes allweddol:

1. Cynllun Cyflawni Digidol a Data Cenedlaethol

- Arwain datblygu cynllun cenedlaethol sy'n cyd-fynd â'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol 2025–2035
- Wedi'i lywio gan asesiadau aeddfedrwydd digidol sy'n cael eu cwblhau gan Fyrddau Iechyd ar hyn o bryd, sy'n cwmpasu llywodraethu, arweinyddiaeth, gallu EPR, a llythrennedd data
- Wedi'i gydnabod yn rhyngwladol: Derbyniodd IGDC wobwr arweinyddiaeth yng Nghynhadledd e-Iechyd Meddwl Fyd-eang (Tachwedd 2025)
- Yn dilyn ymgysylltu helaeth ar draws y system, mae'r Cynllun Cyflawni wedi'i osod i'w adolygu'n derfynol gan Fwrdd y Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl ym mis Mawrth 2026, gyda'r nod o ddechrau gweithio o ddifrif eleni.

2. Cofnodion Cleifion Electronig a Chysylltu Gofal

- Gweithredu systemau EPR Iechyd Cymunedol ac Iechyd Meddwl modern o dan y Rhaglen Cysylltu Gofal
- Disodli platfformau etifeddol i wella cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a gwella effeithlonrwydd clinigol

3. Fframwaith Apiau Iechyd Meddwl

- Datblygu fframwaith ar gyfer integreiddio apiau iechyd meddwl sy'n wynebu cleifion yn ddiogel
- Cyfnod darganfod wedi'i drefnu ar gyfer Ch4 2025/26

4. Safonau Data a Set Ddata Iechyd Meddwl Genedlaethol

- Sefydlu safonau data cenedlaethol a Set Ddata Iechyd Meddwl i gefnogi adrodd, cynllunio a gwerthuso gwasanaethau
- Cyd-fynd â'r Cofnod Gofal Iechyd Meddwl Cenedlaethol (NMHCR) i alluogi rhannu data diogel ar draws gwasanaethau

Mae'r mentrau hyn yn sbarduno newid diwylliannol tuag at ofal iechyd meddwl digidol yn gyntaf, gan wella hygyrchedd, cydymffurfiaeth a gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Drwy gyfuno llywodraethu, technoleg, a mewnwleidiadau data, mae'n grymuso clinigwyr, yn gwella profiad cleifion, ac yn cefnogi cydymffurfiaeth â deddfwriaeth.

Yn y pen draw, mae gwaith IGDC yn sail i ddyfodol lle mae gofal iechyd meddwl yng Nghymru yn fwy integredig, hygyrch, ac yn cael ei yrru gan ddata.

3 - Cefnogi datrysiadau digidol diogel ac effeithiol

Mae gwasanaethau technoleg, seilwaith, data a safonau IGDC gyda'i gilydd yn sail i reolaeth ddiogel, effeithlon a gwydn GIG Cymru—er mwyn galluogi darparu gofal, diogelwch cadarn a gwelliant parhaus ar draws y system iechyd.

Seiberddiogelwch a Seibergadernid

Mae'r bygythiad seiber i'r GIG yng Nghymru yn parhau ar lefel uchel iawn, gyda Chanolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol y DU (NCSC) yn galw am gamau brys i gryfhau seibergadernid. Mae gan IGDC rôl hanfodol wrth ddiogelu GIG Cymru rhag y bygythiadau hyn, gan amddiffyn 135,000 o gyfrifon staff a data 3.2 miliwn o ddinasyddion. Mae ein gwasanaethau seiberddiogelwch yn sicrhau bod data cleifion, systemau clinigol a gwasanaethau hanfodol yn parhau i fod yn ddiogel ac ar gael.

Caiff seiberddiogelwch yn GIG Cymru ei reoli ar sail cyfrifoldeb a rennir, gydag IGDC yn gyfrifol am y cynhyrchion a'r gwasanaethau cenedlaethol, gan gynnwys y Ganolfan Gweithrediadau Diogelwch. Mae pob sefydliad GIG Cymru yn goruchwylio eu systemau, eu seilwaith a'u cynlluniau cadernid eu hunain. Mae sefydliadau GIG Cymru hefyd yn gyfrifol am eu cynlluniau parhad busnes lleol, rhag ofn na fydd systemau digidol ar gael oherwydd digwyddiad seiber.

Mae angen gweithgaredd cenedlaethol cydlynol i reoli parodrwydd seiber GIG Cymru yn ei gyfanrwydd. Mae'r Cydrannau Allweddol yn cynnwys:

- **Canolfan Gweithrediadau Diogelwch (SOC) GIG Cymru** - Y SOC yw'r amddiffyniad rheng flaen, gan ddarparu monitro 24x7 ac ymateb cyflym. Mae'n prosesu 12 biliwn o ddigwyddiadau diogelwch a dros 100 terabeit o ddata bob mis, gan roi gwelededd amser real o fygythiadau ar draws GIG Cymru.
- **Uned Seibergadernid (CRU)** - Yn archwilio parodrwydd diogelwch ar draws holl sefydliadau GIG Cymru, yn adrodd ar ddigwyddiadau i Lywodraeth Cymru, ac yn cefnogi adferiad i gryfhau cadernid.
- **Sicrwydd Seiberddiogelwch**- Yn darparu sicrwydd ar gyfer dros 100 o wasanaethau hanfodol, gan sicrhau bod systemau a chyflenwyr trydydd parti yn bodloni safonau diogelwch llym
- **Cydymffurfiaeth â Seiberddiogelwch** - Yn cynnal cydymffurfiaeth â rheoliadau ISO27001 a NIS, gan wreiddio arfer gorau a chydymffurfiaeth â rheoliadau, gan adrodd i Fwrdd IGDC a'r Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol
- **Ymateb Cenedlaethol i Ddigwyddiadau Seiber** - Yn cydlynu ymarferion cenedlaethol i ymarfer ymatebion i ddigwyddiadau mawr, gan wella parodrwydd ac amseroedd adfer

Seilwaith Cenedlaethol

Mae IGDC yn darparu'r asgwrn cefn digidol sy'n sail i wasanaethau GIG Cymru. Mae'r seilwaith hwn yn cefnogi 135,000 o staff y GIG a miliynau o ddinasyddion sy'n

rhyngweithio â systemau digidol fel Porth Clinigol Cymru, Cofnod Gofal Nyrsio Cymru, ac Ap GIG Cymru.

- **Cwmwl, Canolfannau Data a Gwasanaethau Cronfa Ddata** - Mae IGDC yn comisiynu'r ddwy ganolfan ddata genedlaethol ar gyfer GIG Cymru ac yn darparu'r gwasanaethau seilwaith sylfaenol (gweinyddion, cronfeydd data, copïau wrth gefn, ac ati) sy'n darparu Gwasanaethau Digidol Cenedlaethol IGDC. Mae'n cynnal 2,400 o weinyddion a 900+ o gronfeydd data sy'n storio data hanfodol am gleifion, gan gynnwys diagnosteg a delweddu
- **Gwasanaethau Rhwydweithio** - Mynediad diogel o bell, cysylltiad rhynggrwyd gwydn, a chysylltiadau trawsffiniol â gwledydd eraill y DU
- **Dilysu ac Archwilio** - Yn sicrhau mai dim ond defnyddwyr awdurdodedig sy'n cael mynediad i systemau, gydag archwilio amser real i ganfod gweithgarwch amheus
- **Monitro a Rhybuddio** - Monitro gwasanaethau'n barhaus i gynnal argaeledd uchel ac i ymateb yn gyflym i ddigwyddiadau

Gwasanaethau Integreiddio

Yn hwyluso cyfnewid data diogel rhwng practisiau meddygon teulu, ysbytai a gwasanaethau diagnostig, gan wneud canlyniadau'n hygyrch a galluogi systemau gofal iechyd i gyfathrebu'n effeithiol, gan drin 200 miliwn o negeseuon yn flynyddol.

Negeseuon Meddygon Teulu

Yn cefnogi'r gallu i feddygon teulu ofyn am brofion yn electronig a derbyn canlyniadau'n uniongyrchol yn ôl i systemau eu practis. Yn cyflwyno canlyniadau patholeg a radioleg yn uniongyrchol i systemau meddygon teulu ar gyfer tua 300,000 o gleifion bob mis.

Gwasanaethau Dogfennau a Chanlyniadau

Yn storio 780,000 o ddogfennau gofal ac 1.6 miliwn o ganlyniadau profion bob mis, gan sicrhau mynediad amserol i glinigwyr ar draws meysydd Gofal Sylfaenol a Gofal Eilaidd.

Gwasanaeth Demograffeg Cymru

Yn cefnogi 7 miliwn o chwiliadau misol ac 1.7 miliwn o ymholiadau demograffig, gan alluogi adnabod cleifion yn gywir ar draws systemau a sefydliadau.

Rhyngwynebau Safonol

Mae Rhyngwynebau Rhaglennu Cymwysiaid (APIs) yn darparu mynediad diogel ar gyfer systemau trydydd parti mewnol ac awdurdodedig i wybodaeth a swyddogaethau cleifion, gan gefnogi arloesedd a rhyngweithredadwyedd.

Mae'r gwasanaethau hyn yn ffurfio'r sylfaen cadarn ar gyfer GIG modern a digidol, gan sicrhau parhad, diogelwch ac effeithlonrwydd.

Dyfeisiau

Mae IGDC yn darparu Gwasanaeth Bwrdd Gwaith a Reolir cynhwysfawr, gan sicrhau seilwaith TG diogel, dibynadwy a safonol ar draws GIG Cymru gan gynnwys Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, Addysg a Gwellu Iechyd Cymru, a lleoliadau Gofal

Sylfaenol. Mae'r gwasanaeth hwn yn sail i weithrediadau clinigol a gweinyddol, gan gefnogi darpariaeth effeithiol o ofal cleifion.

Mae cwrmpas y gwasanaeth allweddol hwn yn cynnwys:

- Dyfeisiau wedi'u rheoli'n llawn, wedi'u defnyddio'n genedlaethol ar gyfer tua 16,500 o ddefnyddwyr
- Cymorth i 369 o bractisiau meddygon teulu ledled Cymru, gan sicrhau safonau technoleg a pherfformiad cyson
- Cymorth i garchardai Cymru, gyda 173 o ddyfeisiau a reolir yn cefnogi darpariaeth gofal iechyd mewn amgylchedd diogel

Mae'r Gwasanaeth Bwrdd Gwaith a Reolir gan Feddygon Teulu yn sicrhau bod yr holl galedwedd gofal sylfaenol yn parhau i fod yn gyfredol, yn ddiogel, ac yn perfformio'n uchel trwy fodel adnewyddu ailadroddus sy'n disodli tua 3,000 o ddyfeisiau bob blwyddyn, gan leihau amser segur a diogelu parhad gofal.

Saernïaeth Ddigidol Genedlaethol

Yn 2025, comisiynwyd IGDC gan Lywodraeth Cymru i arwain gwaith ar saernïaeth ddigidol genedlaethol. Mae hyn wedi canolbwyntio ar:

- Gryfhau'r proffesiwn saernïaeth ddigidol ar draws GIG Cymru, trwy 'gymuned ymarfer', sydd wedi cael cefnogaeth gref gan bob sefydliad
- Cofnodi 'cyflwr cyfredol' systemau a gwasanaethau digidol, gan ddefnyddio un storfa a dull cyson ar draws pob sefydliad
- Drafftio saernïaeth ddigidol 'cyflwr targed' sy'n disgrifio sut y gellid dylunio systemau a gwasanaethau digidol orau
- Drafftio 'mapiau ffyrdd pontio' sy'n disgrifio symud o saernïaeth y cyflwr presennol i saernïaeth y cyflwr targed
- Drafftio 'cynllun buddsoddi strategol' a fydd yn darparu fframwaith ar gyfer blaenoriaethu a dilyniannu achosion busnes a phenderfyniadau buddsoddi dros sawl blwyddyn

Bu ymgysylltiad cryf gan bob partner yn y gwaith hwn, sydd wedi darparu tystiolaeth a manylion manwl i gefnogi'r hyn a oedd eisoes yn cael ei dybio'n eang mewn rhai achosion. Er enghraifft, mae wedi datgelu nifer y systemau digidol ar wahân sy'n cael eu defnyddio (dros 1400), sut mae cofnod y claf wedi'i rannu a'i ddyblygu (ar draws 300 o systemau ar wahân) ac wedi helpu i nodi systemau etifeddol sydd ar ddiwedd eu hoes neu'n agos at ddiwedd eu hoes.

Mae gwaith ar saernïaeth darged wedi atgyfnerthu ymrwymiad ar y cyd i weithio tuag at saernïaeth a rennir sy'n fwy cyson, trwy fabwysiadu safonau cyffredin a llywodraethu saernïaeth cryfach, ac sy'n cael ei deall yn well, trwy storfa gyffredin ar gyfer saernïaeth, dyluniadau a manylebau.

Bydd y saernïaeth darged yn darparu manteision sylweddol. Bydd llai o gymhlethdod, rhannu, dyblygu ac amrywiad systemau digidol yn lleihau'r amser sydd ei angen ar gyfer profion technegol a phroffion defnyddwyr a bydd yn lleihau cost rhedeg 'gorbenion integreiddio'. Bydd deall yr ystâd ddigidol ledled Cymru yn llawn yn helpu i wneud systemau a data yn fwy dibynadwy a diogel, ac yn haws i'w cefnogi a'u rheoli. Bydd cydgrynhai data a gosod safonau drwy ryngwynebau cyffredin yn sbarduno dull 'casglu, storio, rhannu, defnyddio', a bydd yn cefnogi ac yn galluogi defnydd diogel, cyfrifol a rheoledig o dechnolegau deallusrwydd artiffisial newydd.

Mae'r prosiect ar y trywydd iawn i gyflwyno cynllun buddsoddi strategol drafft erbyn mis Mawrth 2026. Mae cynllun y prosiect ar gyfer 2026-27 yn cael ei ddatblygu gyda phartneriaid a bydd yn cynnwys datblygiad pellach o'r proffesiwn, mwy o fanylion am y storfa a rennir, a chefnogaeth i sefydlu llywodraethu cenedlaethol ar gyfer saernïaeth a safonau.

Rheoli Gwybodaeth ac Ymchwil

Mae ein gwasanaethau Rheoli Gwybodaeth ac Ymchwil yn cyfuno Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werth, dadansoddeg uwch, arbenigedd ystadegol a chyhoeddiadau ystadegau swyddogol, rheoli gwybodaeth, ac ymchwil ac arloesi, i lywio gwneud penderfyniadau a thrawsnewid gwasanaethau ar draws GIG Cymru. Rydym yn darparu cynnig deallusrwydd cydlynol sy'n cynnwys: Seilwaith PROMs/PREMs, meincnodi canlyniadau, ystod o ddangosfyrddau sy'n cwmparu gwahanol feysydd clinigol, mewnwelediadau a rhagolygon iechyd y boblogaeth. Mae ein gwasanaethau rheoli gwybodaeth yn sicrhau bod tystiolaeth a dysgu sefydliadol yn cael eu casglu a'u symud ar gyfer arweinwyr a darparwyr gofal, tra bod ein swyddogaeth ymchwil ac arloesi yn cefnogi datblygu a mabwysiadu dulliau newydd a gofal gwell. Gyda'i gilydd, mae'r galluedd hyn yn creu ecosystem deallusrwydd gadarn sy'n cryfhau cynllunio strategol, yn sbarduno gwelliant perfformiad, ac yn sicrhau'r gwerth a'r canlyniadau mwyaf posibl i'r boblogaeth.

Data

Yr Adnodd Data Cenedlaethol

Mae'r Adnodd Data Cenedlaethol yn rhaglen gydweithredol fawr dan arweiniad IGDC sy'n cynnwys holl sefydliadau GIG Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru fel partneriaid ffederal. Dros ddeng mlynedd, bydd y rhaglen yn dylunio, yn datblygu, yn sicrhau ac yn defnyddio platfform data cwmwl newydd ar gyfer gofal uniongyrchol, dadansoddeg ac ymchwil, yn mudo data hanesyddol i'r platfform newydd, ac yn cefnogi systemau i ddarllen ac ysgrifennu data byw i'r platfform newydd. Bydd platfform yr Adnodd Data Cenedlaethol yn galluogi storio a defnyddio data ar raddfa fawr, mewn seilwaith cwmwl graddadwy a diogel, sy'n sicrhau preifatrwydd data a rheolaeth dros sut mae data'n cael ei rannu a'i ddefnyddio. Bydd y platfform data hwn yn galluogi cleifion i gael mynediad at eu data eu hunain, drwy Ap GIG Cymru, yn galluogi gweithwyr proffesiynol i weld cofnod cyfan y claf gan gefnogi gofal o ansawdd gwell, ac yn cefnogi gwybodaeth rheoli a pherfformiad i wella sut mae gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u darparu.

Mae Rhaglen yr Adnodd Data Cenedlaethol yn rheoli mwy nag ugain o brosiectau cyflawni, sy'n cael eu llywodraethu a'u sicrhau trwy drefniadau rheolaidd, gan gynnwys archwiliad annibynnol ac adrodd rheolaidd i Lywodraeth Cymru. Prif elfennau'r rhaglen yw:

- **Y Storfa Data Gofal (CDR)** – sef platfform cenedlaethol sy'n dal cofnod y claf a data arall sy'n ymwneud â gofal uniongyrchol, gyda'r bwriad o ddisodli storfeydd data cenedlaethol presennol fel Gwasanaeth Cofnodion Gofal Cymru a Gwasanaeth Demograffig Cymru
- **Y Platfform Data a Dadansoddeg Cenedlaethol (NDAP)** – sef platfform dadansoddeg cenedlaethol sy'n galluogi dadansoddeg, rhagweld a modelu uwch, gan gynnwys offer deallusrwydd artiffisial, gyda'r bwriad o ddisodli'r llwyfan Warws Data cenedlaethol presennol
- **Amgylchedd data diogel (SDE)** – a fydd yn wasanaeth dienw sy'n cefnogi gweithgaredd ymchwil ac arloesi, gan ategu gwasanaethau presennol fel Cronfa Ddata SAIL Prifysgol Abertawe
- **Gwasanaeth Rheoli API (API-M)** – a fydd yn darparu cysylltiadau â gwasanaethau digidol allanol fel rhan o saernïaeth ddigidol genedlaethol
- **Y Platfform Dysgu Dadansoddeg Uwch (AALP)** – a fydd yn datblygu gallu a chynhwysedd y proffesiwn data a dadansoddeg ledled Cymru, er mwyn sicrhau'r manteision mwyaf posibl o blatfform a gwasanaethau'r Adnodd Data Cenedlaethol

Mae tua thraean o gyllideb flynyddol rhaglen yr Adnodd Data Cenedlaethol yn cael ei dosbarthu i sefydliadau partner ffederal i gefnogi cyflawni prosiectau lleol, gan ganolbwyntio'n benodol ar barodrwydd data a mudo o'r seilwaith data presennol i blatfform newydd yr Adnodd Data Cenedlaethol. Mae Rhaglen yr Adnodd Data Cenedlaethol wedi cwblhau'r cyfnodau dylunio, datblygu, profi, sicrhau a defnyddio.

Mae cam pedwar presennol y rhaglen yn canolbwyntio ar adeiladu'r cofnod digidol cyfan, yn enwedig drwy fudo data hanesyddol i'r platfform newydd. Mae rhai gwasanaethau byw newydd eisoes wedi'u hadeiladu ar blatfform yr Adnodd Data Cenedlaethol, er enghraifft 'Modiwl Siart Twf Cymru' ym Mhorth Clinigol Cymru, y Cofnod Meddyginiaethau a Rennir, apwyntiadau ysbyty a welir yn Ap GIG Cymru, a ffrydiau data ADT i systemau mamolaeth lleol.

Yn y maes dadansoddeg yn ystod 2025, mae cynhyrchion allweddol sy'n defnyddio technolegau deallusrwydd artiffisial wedi'u datblygu a'u profi, i'w defnyddio yn 2026 – er enghraifft ap codio clinigol awtomataidd, offer rhagweld a modelu rheoli gwelyau, ac offeryn 'mewnwelediadau sgysiol' sy'n defnyddio awgrymiadau iaith naturiol.

Safonau Data

Mae IGDC yn arwain y gwaith o ddatblygu a sicrhau safonau data cenedlaethol, gan gynnwys eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru (trwy Fwrdd Safonau Gwybodaeth Cymru) i'w cymeradwyo'n ffurfiol. Mae'r mecanwaith hwn yn cadarnhau safonau data fel 'Hysbysiadau Newid Safonau Data' sydd wedyn yn cael eu cyhoeddi fel gofynion i bob sefydliad.

Mae IGDC yn cefnogi'r broses lywodraethu ffurfiol hon gyda gwasanaethau allweddol, gan gynnwys:

- **Geiriadur Data GIG Cymru** – sy'n cyhoeddi'r holl safonau data sydd wedi'u cadarnhau
- **Y gwasanaeth Ansawdd Data** – sy'n hyrwyddo pwysigrwydd ansawdd data, yn cefnogi'r proffesiwn, ac yn adrodd ar berfformiad ansawdd data ar gyfer setiau data defnydd eilaidd
- **Gwasanaeth Data Cyfeirio a Terminoleg Cymru (WRTS)** – sy'n cynnal setiau gwerthoedd cyfeirio cenedlaethol mewn fformat digidol i gefnogi defnydd cyson ledled Cymru
- **Y Gwasanaeth Dosbarthiadau Clinigol a Safonau Terminoleg** – sy'n cefnogi Llywodraeth Cymru a GIG Cymru i ddatblygu polisi, safonau a chanllawiau sy'n ymwneud â gwasanaethau codio clinigol a defnyddio dosbarthiadau clinigol. Mae'r gwasanaeth codio clinigol hwn yn cynnwys desg gymorth, dangosfyrddau, offer archwilio, a chymorth proffesiynol arall

Mae IGDC hefyd yn cynrychioli GIG Cymru ar grwpiau yn y DU a grwpiau rhyngwladol sy'n ymwneud â safonau data, fel INTEROPen ac UK FHIR.

Rhannu Data

Mae IGDC yn gyfrifol am sawl swyddogaeth allweddol sy'n hyrwyddo Rhannu Data yn ddiogel ac yn effeithiol – Disgrifir hyn yn fwy cyffredinol fel y Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth.

Mae Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) yn berthnasol i'r sector cyhoeddus cyfan ac yn creu set safonol o brotocolau, Cytundebau Rhannu Gwybodaeth a gweithgareddau sicrwydd sy'n caniatáu i sefydliadau ddeall eu cyfrifoldebau wrth rannu gwybodaeth ar draws asiantaethau lluosog. Yn ddiweddar, mae WASPI wedi gwneud cais ffurfiol am statws Cod Ymddygiad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) – y fenter sector cyhoeddus gyntaf yn y DU i wneud hynny o dan y trefniant hwn.

Mae Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Cymru yn rhoi mecanwaith i sefydliadau fesur eu hunain yn erbyn cydymffurfiaeth dda â Diogelu Data gan ddefnyddio plattfform digidol (a grëwyd gan IGDC). Fe'i defnyddir gan bob darparwr Gwasanaethau'r GIG i ddangos cydymffurfiaeth â'r gyfraith.

Mae'r Gwasanaeth Swyddog Diogelu Data (DPO) a redir gan IGDC ar gael i bob gwasanaeth Meddyg Teulu, Fferylliaeth Gymunedol ac Optometreg yng Nghymru. Mae'n darparu cyngor a chymorth arbenigol ar rannu gwybodaeth a chydymffurfiaeth â Diogelu Data i'r contractwyr hynny sy'n methu â darparu hyn drostynt eu hunain.

Mae'r Teclyn Archwilio Integredig Deallus Cenedlaethol (NIAS) yn system y gellir ei disgrifio orau fel Technoleg Gwella Preifatrwydd (PET). Mae'n hyrwyddo rhannu gwybodaeth yn ddiogel drwy'r systemau digidol hynny a ddisgrifir uchod, ac yn monitro mynediad defnyddwyr at ddata cleifion i sicrhau bod y rhai sydd â mynediad breintiedig yn gwneud hynny'n briodol. Chwaraeodd NIAS ran allweddol yn y broses o ddod i gytundeb

â Phwyllgor Meddygon Teulu Cymru (GPC Wales) i ganiatáu golwg ar gynodeb cofnod y Meddyg Teulu (LLYWODRAETH CYMRU) mewn gofal eilaidd drwy Borth Clinigol Cymru. Mae'n gwella'r model dibynadwy o rannu gwybodaeth drwy ein gwasanaethau digidol cenedlaethol.

4 - Cryfhau'r sefydliad

Mae IGDC wedi ymrwymo i gryfhau arweinyddiaeth y sefydliad a'r system yn barhaus trwy lywodraethu cadarn, sicrhau ansawdd, partneriaethau cydweithredol, strategaethau pobl ystwyth, a gwydnwch ariannol - gan sicrhau bod GIG Cymru wedi'i gyfarparu a'i gefnogi i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal digidol diogel, effeithiol a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Llywodraethu

Sefydlwyd IGDC ar 1 Ebrill 2021 fel sefydliad darparu digidol cenedlaethol ar gyfer y GIG yng Nghymru, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i ddarparu systemau a gwasanaethau digidol cenedlaethol (Cymru Gyfan), datblygu'r proffesiwn iechyd digidol a darparu cymorth a chynghor arbenigol.

Mae IGDC yn atebol i Lywodraeth Cymru, a darperir arweiniad a chyfeiriad gan Fwrdd IGDC. Mae gan y Bwrdd drosolwg o ran sicrhau trefniadau llywodraethu cadarn.

Ym maes gofal sylfaenol, mae IGDC yn darparu gwasanaeth a reolir yn llawn gan gynnwys caledwedd a chymorth TG i bob practis meddyg teulu yng Nghymru, ochr yn ochr â gwasanaethau digidol ar gyfer rheoli gofal, gwneud atgyfeiriadau a gofyn am brofion.

Mae IGDC yn darparu dros gant o wasanaethau digidol ar draws gofal eilaidd, gan gynnwys systemau cenedlaethol craidd ar gyfer gofal cleifion, rheoli gwasanaethau iechyd, diagnosteg a thenantiaeth genedlaethol Microsoft 365. Mae cyrff eraill GIG Cymru, er enghraifft byrddau iechyd, yn rheoli eu caledwedd eu hunain (e.e. cyfrifiaduron ysbytai, Wi-Fi ac argraffyddion) ac maent hefyd yn cynnal eu hamrywiol systemau cyfrifiadurol lleol eu hunain nad ydynt yn systemau Cymru Gyfan.

Mae strwythur llywodraethu Bwrdd IGDC yn cynnwys nifer o Is-bwyllgorau'r Bwrdd sy'n cynnwys:

- **Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd** – archwilio, gwybodaeth ariannol, atal twyll, rheoli risg, rheoleiddio dyfeisiau meddygol, llywodraethu a rheolaeth fewnol
- **Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol** – diogelwch cleifion, dysgu sefydliadol, llywodraethu gwybodaeth, sicrwydd digidol a gwybodaeth, seibergadernid a seiberddiogelwch, diogelwch cleifion, dysgu sefydliadol
- **Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni** – trosolwg portffolio, cyflawni rhaglenni mawr, cyflawni yn erbyn y cynllun
- **Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth** – taliadau y tu allan i gwmpas yr agenda ar gyfer newid, cynllun rhyddhau cynnar gwirfoddol

Yn ogystal â'r Is-bwyllgorau hyn o'r Bwrdd, mae gan IGDC hefyd Grŵp Cyngori i'r Bwrdd, sef Fforwm Partneriaeth Lleol IGDC sy'n sicrhau deialog rhwng y Cyfarwyddwyr Gweithredol a sefydliadau staff ac ymgysylltiad cynnar ar faterion sy'n effeithio ar y gweithlu.

Daeth barn ddiweddaraf Pennaeth Archwilio Mewnol (2024/25) IGDC i'r casgliad canlynol:

Sicrwydd Rhesymol – Gall Bwrdd IGDC fod yn rhesymol o sicr fod y trefniadau sydd yn eu lle i sicrhau llywodraethu, rheolaeth risg a rheolaeth fewnol, yn y meysydd hynny sydd wedi eu hadolygu, wedi eu dylunio'n addas ac wedi eu rhoi ar waith yn effeithiol. Mae rhai materion angen sylw rheolwyr wrth gynllunio rheolaeth neu gydymffurfiaeth, gydag effaith isel i gymedrol ar amlygiad i risg gweddilliol, hyd nes y cânt eu datrys.

Wrth ddod i'r casgliad yma, nododd y Pennaeth Archwilio Mewnol fod mwyafrif yr adolygiadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn wedi diweddu'n bositif, a bod trefniadau rheoli cadarn yn gweithredu mewn rhai meysydd. Roedd y Cynllun Archwilio Mewnol yn cynnwys archwiliadau o amcanion gweithredol allweddol, cyflawniadau digidol a risgiau cysylltiedig. O'r farn a gyhoeddwyd, dyrannwyd Sicrwydd Sylweddol i ddau, dyrannwyd Sicrwydd Rhesymol i naw ac ni ddyrannwyd barn 'gyfyngedig' neu 'ddim sicrwydd' i unrhyw adroddiadau.

Daeth Asesiad Strwythuredig IGDC 2025 i'r casgliad canlynol:

- Mae gan IGDC Fwrdd effeithiol a gefnogir gan drefniadau llywodraethu da. Mae ganddo brosesau rheoli ariannol cryf a chynllun hirdymor clir, gan gynnwys y Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI). Fodd bynnag, mae ei ddibyniaeth, yn rhannol, ar gyllid byrdymor ac arbedion o swyddi gwag yn parhau i gyflwyno rhai risgiau ariannol.
- Mae systemau llywodraethu corfforaethol IGDC yn effeithiol, ac mae camau gweithredu cyfredol yn helpu i leihau risgiau allweddol. Mae'r Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni yn canolbwyntio'n briodol ar raglenni digidol mawr, ond dylai ganolbwyntio mwy ar yr hyn y gall IGDC ei reoli a gweithio'n well gyda phartneriaid i gefnogi darpariaeth ehangach. Er bod IGDC yn ymateb yn gadarnhaol i'w statws uwchgyfeirio diweddar gan Lywodraeth Cymru, byddai adrodd perfformiad cryfach ac olrhain strategaethau sefydliadol yn well yn ei helpu i asesu a dangos ei effaith a'i werth i bartneriaid.

Gwnaeth yr Asesiad Strwythuredig bedwar argymhelliad sy'n cael eu holrhain a'u monitro gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd.

Llywodraethu Rhaglenni

Mae IGDC yn gyfrifol am reoli nifer o raglenni cydweithredol cenedlaethol mawr ac mae wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Bwrdd IGDC i gryfhau llywodraethu, sicrwydd ac adrodd.

